CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

# METHODOLEG ASESU SAFLEOEDD YMGEISIOL

Mehefin 2022



PAPUR CEFNDIROL - PB16

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

This document is available in English/ Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol 2

3. Ystyried Dyraniadau Presennol y CDLl 4

4. Proses Asesu Safleoedd Ymgeisiol 4

5. Ystyried safleoedd ychwanegol a gyflwynwyd ar ôl cyhoeddi Drafft y Strategaeth a Ffafrir 8

6. Meini Prawf Asesu 9

7. Meini Prawf Arfarnu Cynaliadwyedd 11

8. Meini Prawf Asesu Safleoedd Ymgeisiol 16

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r ddogfen hon yn esbonio'r fethodoleg a'r broses er mwyn gwerthuso pa mor addas yw safleoedd datblygu ymgeisiol i'w cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg 2021-2036 (CDLlN). Paratowyd y fethodoleg i adlewyrchu darpariaethau mewn deddfwriaeth, y polisi cenedlaethol a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 Chwefror 2021) (PCC) a'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer llunio CDLlau a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3 Mawrth 2020).

1.2 Mae'r broses asesu safleoedd ymgeisiol yn rhan o dystiolaeth gefndir y Cyngor ar gyfer y CDLlN. Bydd yn llywio gwaith i nodi opsiynau posibl am dwf gofodol i'r awdurdod, ac yn sail ar gyfer datblygu Strategaeth a Ffafrir y CDLlN ar gyfer Bro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun.

1.3 Mae'r ddogfen yn esbonio dull y Cyngor o fynd ati i nodi dyraniadau safle newydd, gan gynnwys safleoedd heb eu datblygu a oedd wedi'u dyrannu'n flaenorol yn y CDLl mabwysiedig, yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol. Nod y broses asesu yw sicrhau bod y broses o nodi safleoedd ymgeisiol wedi'i seilio ar asesiad cadarn a hygred o argaeledd ac addasrwydd tir.

1.4 Mae'r cyflawnadwyedd safleoedd yn agwedd bwysig ar y fethodoleg, a bydd yn allweddol wrth nodi safleoedd i'w cynnwys yn y CDLlN. O ganlyniad i hynny, bydd y broses asesu yn cael ei chymhwyso i bob safle a gyflwynir i’w hystyried yng ngham yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, safleoedd a ddyrannwyd sydd heb eu datblygu a heb ganiatâd cynllunio yn y CDLl mabwysiedig, ac unrhyw safleoedd eraill a ystyrir yn briodol. Bydd y gwerthusiad o safleoedd yn seiliedig ar ystod o wybodaeth a ddelir gan y Cyngor, tystiolaeth ategol a gyflwynir gan hyrwyddwyr safleoedd a, lle bo'n berthnasol, bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal â chyrff ymgynghori penodol fel bo modd rhoi ystyriaeth lawn i safleoedd.

# 2. Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

2.1 'Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol' swyddogol yw'r cam cyntaf ffurfiol wrth baratoi'r CDLlN ar ôl cytuno ar a chyhoeddi'r Cytundeb Darparu cymeradwy. Mae'n rhoi cyfle i unigolion a sefydliadau hyrwyddo safleoedd er mwyn iddynt, o bosib, gael eu cynnwys yn y CDLlN sy'n dod i'r amlwg. Gall y rhain gynnwys safleoedd ar gyfer ystod o ddefnyddiau, gan gynnwys tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden neu ddefnydd cymunedol.

2.2 Prif egwyddor y broses safleoedd ymgeisiol yw casglu tystiolaeth addas gan hyrwyddwyr safleoedd er mwyn dangos mewn modd cadarn beth yw cynaliadwyedd, cyflawnadwyedd a hyfywedd ariannol safleoedd, er mwyn eu cynnwys yn y CDLlN.

2.3 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) Mawrth 2020 yn awgrymu y dylai'r broses hon fod yn fodd i ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r safle mewn lleoliad cynaliadwyyn unol â'r dilyniant chwilio am safleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 (PCC)?

- A yw’r safle yn gyffredinol yn rhydd rhag cyfyngiadau ffisegol, fel perchnogaeth ar dir, seilwaith, mynediad, cyflwr y tir, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth, problemau perygl llifogydd a llygredd?

- A ellir darparu'r safle (a ellir datblygu'r safle dros gyfnod y cynllun, neu symud y safle yn ei flaen yn sylweddol mewn rhyw ffordd arall)?

- A yw'n ariannol hyfyw i ddatblygu'r safle? Hynny yw, a yw'r safle'n ddeniadol i'r farchnad (y sector preifat ac/neu'r sector cyhoeddus), a all y safle ddarparu'r lefelau bras o dai fforddiadwy, gofynion polisi / adran 106 eraill a chostau seilwaith a nodir gan yr ACLl gan gynnig elw digonol i'r datblygwr/tirfeddiannwr?

2.4 Er mwyn pennu'r ffactorau hyn, mae'r ffurflen cyflwyno safleoedd ymgeisiol yn cynnwys cyfres o gwestiynau'n gysylltiedig â'r uchod, ac yn fodd i asesu'r safle a'i gyflawnadwyedd. Dewiswyd y meini prawf ar y ffurflen gyflwyno er mwyn galluogi'r Cyngor i hidlo safleoedd y tybir eu bod yn anaddas i'w hystyried ymhellach. Gallai'r rheswm dros ddiystyru safleoedd gynnwys y canlynol, ymhlith eraill: cyfyngiadau cyffredinol fel llifogydd; safleoedd neu gynigion sy'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol, yn ogystal ag amcanion cenedlaethol yn gysylltiedig â llesiant, newid yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy, ee cynigion datblygu mewn lleoliadau lle cyfyngir ar fynediad at wasanaethau a chyfleusterau, neu mewn ardaloedd o gefn gwlad agored.

2.5 Bydd goblygiadau posibl yn deillio o unrhyw ddiwygiad i Strategaeth y CDLl a'r hierarchaeth aneddiadau hefyd yn effeithio ar y broses dewis safleoedd. Yn hyn o beth, bydd rôl a swyddogaeth yr anheddiad, ynghyd â'i safle yn yr hierarchaeth aneddiadau ac agosrwydd safleoedd i ffiniau presennol yr anheddiad hefyd yn rhan o'r ystyriaethau wrth bennu addasrwydd safleoedd.

2.6 Bydd y materion a fydd yn pennu addasrwydd safle ymgeisiol i ddechrau'n cael eu hystyried drwy'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gyflwyno, a thrwy dystiolaeth ychwanegol a gesglir gan y Cyngor. Bydd dadansoddiad manwl pellach yn cael ei gynnal o safleoedd a ystyrir yn addas i'w hystyried ymhellach. Yn rhan o hynny bydd angen ymgynghori â rhanddeiliaid / darparwyr gwasanaeth allanol a chael tystiolaeth safle-benodol wedi'i darparu gan hyrwyddwyr, gan gynnwys arfarniadau manwl o hyfywedd y safle. Ymgynghorir hefyd ag adrannau mewnol perthnasol y Cyngor i bennu cwmpas unrhyw rwymedigaethau cynllunio angenrheidiol pe bai'r safleoedd yn cael eu dyrannu yn y CDLlN.

2.7 Yn rhan o'r broses hon, bydd gofynion statudol ar gyfer cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) o'r CDLlN wedi'u hymgorffori yn y broses asesu safleoedd. Bydd hyn yn rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) o'r CDLlN a fydd hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith ar Iechyd, Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

2.8 Bydd angen i'r Cyngor hefyd sicrhau na fydd y CDLlN yn cael unrhyw effaith o bwys (ar ei ben ei hun, neu o'i gyfuno ag agweddau eraill) ar yr adnodd Safleoedd Ewropeaidd (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - ARhC) wrth ei weithredu. Yn hyn o beth, bydd angen i'r cynigion hynny sy'n dod i'r amlwg (gan gynnwys dewis safleoedd) gael eu llywio gan adolygiad iterus yn erbyn y cyfryw fframweithiau wrth i'r Cynllun fynd rhagddo drwy'r camau paratoi ac ymgynghori amrywiol.

## 3. Ystyried Dyraniadau Presennol y CDLl

3.1 Yn rhan o'r adolygiad o'r CDLl, bydd angen i'r Cyngor ailarfarnu safleoedd a ddyrannwyd eisoes yn y CDLl sydd heb ganiatâd cynllunio gweithredol drwy'r broses asesu safleoedd ymgeisiol, ac ni ddylai perchnogion y safleoedd hynny ragdybio y bydd y cyfryw safleoedd yn cael eu symud ymlaen yn ddiofyn yn rhan o'r adolygiad.

3.2 O ganlyniad i hyn, bydd yn rhaid i berchnogion/datblygwyr safleoedd sydd eisoes wedi'u dyrannu yn y CDLl anfon ffurflen cyflwyno safle ymgeisiol i ddangos bod eu safle'n gyflawnadwy, ac i esbonio pam na sicrhawyd caniatâd cynllunio hyd yma. Os na cheir tystiolaeth gyfredol fod safle presennol ar gael ac yn gyflawnadwy, mae safleoedd o'r fath yn annhebygol o gael eu hystyried yn addas i'w hailddyrannu yn y CDLlN sydd ar ddod.

3.3 Wrth benderfynu a safleoedd a ddyrannwyd eisoes yn y CDLl yn gyflawnadwy, bydd y Cyngor yn cymhwyso'r diffiniad o safle ymgeisiol 'cyflawnadwy', fel y nodir ym mharagraff 3.47 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3 Mawrth 2020).

## 4. Proses Asesu Safleoedd Ymgeisiol

4.1 Mae'n hanfodol bod y tir a ddyrannwyd i'w ddatblygu yn y CDLlN yn bodloni'r amcanion perthnasol ac y gellir ei ddatblygu dros gyfnod y Cynllun. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Cyngor yn cynnal proses bedwar cam i asesu safleoedd ymgeisiol. Bydd yn ceisio sicrhau bod y broses honno'n dryloyw, gan ddangos cynnydd safleoedd drwyddi.

4.2 Er mwyn llywio’r broses asesu safleoedd, defnyddir ystod o ddulliau i gasglu data ar gamau amrywiol y broses asesu safleoedd ymgeisiol, gan gynnwys:

- Gwybodaeth safle-benodol a ddarparwyd gan hyrwyddwyr y safle drwy'r ffurflen cyflwyno safleoedd ymgeisiol, gan gynnwys arfarniadau hyfywedd, uwchgynllunio a, lle bo'n berthnasol, gwybodaeth o geisiadau cynllunio.
- Dadansoddiad bwrdd gwaith o safleoedd drwy ddefnyddio data a ddelir eisoes gan y Cyngor neu sydd ar gael yn gyhoeddus.
- 'Ymgynghoriad Technegol' lle bydd darparwyr gwasanaethau a chyrff cyhoeddus yn darparu gwybodaeth; ac
- Ymweliadau safle i ddeall nodweddion y safle a'r cyd-destun lleol.

4.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod na fydd sicrwydd bob tro ynghylch cyflawnadwyedd safle nes cael gwybodaeth fanylach am hyfywedd wrth i'r Cynllun fynd rhagddo. O ganlyniad i hyn, penderfynir ar lefel yr wybodaeth a ddefnyddir i arfarnu safleoedd drwy gydol y broses asesu safleoedd ymgeisiol. Rhagwelir felly y bydd angen rhagor o wybodaeth fanwl yng nghamau olaf y broses o baratoi'r Cynllun fel bo modd i'r Cyngor gynnal asesiad llawn o addasrwydd y safle i'w ddyrannu yn y CDLlN Adneuo. Yn benodol, bydd angen i arfarniadau hyfywedd ystyried y seilwaith angenrheidiol a ddarperir i gefnogi'r datblygiad, gan gynnwys cyfraniadau Adran 106 tuag at dai fforddiadwy, trafnidiaeth gynaliadwy a chyfleusterau cymunedol ac ati.

4.4 Fel y soniwyd yn flaenorol, bydd proses statudol yr AC / AAS hefyd wedi'i hymgorffori yn y broses asesu a nodi safleoedd ymgeisiol, a fydd yn alinio â'r AC / AAS cyffredinol a gynhelir ar gyfer holl broses baratoi'r CDLlN.

4.5 Er mwyn helpu i gyflwyno safleoedd ymgeisiol, mae'r Cyngor wedi llunio map cyfyngiadau rhyngweithiol. Bydd hyn yn rhoi dull rhwydd i hyrwyddwyr safleoedd nodi unrhyw

gyfyngiadau'n gysylltiedig â safleoedd, ac yn dangos a fydd yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn rhan o broses asesu safleoedd ymgeisiol y Cyngor.

### Camau Asesu Safleoedd

4.6 Bydd Cam 1 yn cynnwys asesiad lefel uchel (hy, didoli cychwynnol) sy'n ceisio diystyru safleoedd anaddas yn gynnar yn y broses, fel a ganlyn:

### Cam 1 – Hidlo Safleoedd yn Gychwynnol

- **Trothwy safle** - Ar gyfer datblygiad preswyl mae trothwy maint safle gofynnol o 0.3 ha neu 10 annedd, ar ddwysedd o 30 annedd yr hectar [net] o leiaf. Mewn 'lleoliadau trefol' priodol e.e. canol tref y Barri bydd y Cyngor yn ceisio isafswm dwysedd o 50 annedd yr hectar [net] yn unol â'r egwyddorion strategol ar gyfer creu lleoedd yng Nghymru'r Dyfodol

- **Hanes Cynllunio** - Bydd safleoedd a wrthodwyd yn flaenorol ar sail amwynder, diogelwch priffyrdd, effaith weledol ac ati wedi'u heithrio o ystyriaeth bellach. Ni ddylid ystyried y broses safleoedd ymgeisiol fel ffordd i gynigion datblygu ochrgamu penderfyniad cynllunio blaenorol sy'n parhau i fod yn ddilys.

- **Lleoliad mewn cefn gwlad agored** - (cynigion preswyl yn unig).Er mwyn mynd heibio'r cam didoli cychwynnol, mae'n rhaid i safle tai fod oddi mewn i anheddiad presennol, neu'n gyfagos anheddiad presennol. Mae hyn yn berthnasol i safleoedd sydd yn union wrth ymyl ffurf adeiledig yr anheddiad, a hefyd i safleoedd sydd mor agos at y ffurf adeiledig fel ei bod hi'n rhesymol eu hystyried yn estyniad posibl i ffin anheddiad presennol. Gall yr olaf gynnwys safleoedd sydd wedi'u gwahanu oddi wrth y ffurf adeiledig gan gae ffiniol bychan neu ardal o dir agored (ee, cae chwarae). Tybir bod cynigion preswyl sydd wedi'u hynysu oddi wrth anheddiad presennol yng nghefn gwlad, ac ni roddir ystyriaeth bellach iddynt. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol ni chaiff cynigion am aneddiadau newydd eu derbyn gan ei bod hi'n fwy priodol nodi'r rhain drwy broses y Cynllun Datblygu Strategol (gweler paragraff 3.53 PCC).

- **Perygl llifogydd**– ni fydd safleoedd sydd naill ai oddi mewn i Ardal Amddiffynedig TAN 15, neu mewn ardal Parth Llifogydd 2 neu 3 nad ydynt yn bodloni'r prawf cyfiawnhad neu'r derbynioldeb canlyniadau yn adran 10 ac 11 o TAN 15 yn mynd heibio'r cam didoli cychwynnol.

- **Bioamrywiaeth a Chynefinoedd -**Bydd safleoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol neu'n genedlaethol oherwydd bioamrywiaeth wedi'u hepgor o'r cam didoli cychwynnol. Mae’r cynefinoedd hyn yn cynnwys:

    - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
    - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
    - Safleoedd Ramsar
    - Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)
    - Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
    - Coetiroedd Hynafol

- **Lleoliad ym Mharth HSE (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)** - Os yw pob rhan o'r safle o fewn Parth Mewnol yr HSE, bydd wedi'i eithrio rhag defnydd preswyl yn unol â methodoleg cynllunio defnydd tir yr HSE. Fodd bynnag, ni fydd wedi'i eithrio rhag cael ei ddefnyddio i ddibenion amhreswyl, fel cyflogaeth.

- **Safleoedd o bwysigrwydd archeolegol neu hanesyddol -** Bydd cynigion sy'n union oddi mewn i safle o bwysigrwydd archeolegol neu hanesyddol yn cael eu heithrio. Mae'r rhain yn cynnwys Henebion Rhestredig (HRh) a pharciau a gerddi hanesyddol.

- **Materion cyflawnadwyedd**- Rhoddir ystyriaeth gyflawnadwyedd safleoedd naill ai ar sail presenoldeb cyfyngiadau ffisegol mawr ar y safle, diffyg tystiolaeth o hyfywedd ariannol, cyfyngiadau cyfreithiol neu gyfamodau sy'n cyfyngu ar y gallu i ddwyn y safle ymlaen dros gyfnod y Cynllun.

4.7 Bydd canlyniadau'r cam didoli cychwynnol yn cael eu cyhoeddi yn rhan o gyhoeddiad y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn unol â Rheoliad 15 y CDLl. Bydd y safleoedd ymgeisiol sy'n bodloni'r asesiad cychwynnol yn cael eu dwyn ymlaen i Gam 2, a bydd y detholiad terfynol o safleoedd a ffafrir yn rhan o'r CDLlN Adneuo, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill 2024. Bydd Drafft y Strategaeth a Ffafrir yn nodi safleoedd allweddol sy'n hollbwysig er mwyn gweithredu'r ymagwedd a ffafrir.

## Cam 2 (A) Asesiad Manwl o Safleoedd ac Arfarniad Cynaliadwyedd

### Asesiad Manwl o Safleoedd

4.8 Bydd Cam 2 yr asesiad o safleoedd ymgeisiol yn cynnwys proses asesu ddwyran (A a B) ac yn cynnwys asesiad pellach o safleoedd sydd wedi goroesi proses hidlo Cam 1. Bydd hyn yn cynnwys arfarniad manwl o safleoedd yn erbyn y meini prawf a nodir isod, ac yn erbyn yr amcanion cynaliadwyedd.

4.9 Bydd hyn yn cynnwys trefniadau gan y Cyngor i ddilysu'r wybodaeth a ddarparwyd gan hyrwyddwyr safleoedd, mewn perthynas ag arfarniadau cychwynnol o hyfywedd safleoedd neu wybodaeth am fesurau lliniaru ar eu cyfer yn gysylltiedig ag unrhyw gyfyngiadau a nodwyd arnynt yn y cam cyflwyno. Yn y cam hwn, gall y Cyngor hefyd ofyn am ragor o wybodaeth gan hyrwyddwyr safleoedd i gefnogi'r broses asesu

4.10 Bydd ymgynghoriad mewnol hefyd yn cael ei gynnal gyda meysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor (ee, priffyrdd, ecoleg, iechyd yr amgylchedd), er mwyn pennu addasrwydd safleoedd, yn ogystal ag unrhyw gyfraniadau cynllunio tebygol sy'n deillio o ddatblygu'r safle (fel addysg, tai fforddiadwy, seilwaith gwyrdd, teithio cynaliadwy).

## Arfarniad cynaliadwyedd

4.11 Yn y cam hwn, bydd safleoedd hefyd yn cael eu hasesu yn erbyn fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) y Cyngor er mwyn asesu safleoedd ymgeisiol. Ar ôl i Gam 2B ddod i ben, ceir arwydd clir o'r safleoedd sy'n addas i'w datblygu. Bydd y safleoedd hynny sydd wedi'u hasesu'n wael yn cael eu dileu o'r broses.

4.12 Bydd y detholiad terfynol o safleoedd hefyd yn destun ACI. Bydd yr ACI yn asesu effeithiau unigol a chronnus pob polisi yn y CDLlN, gan gynnwys safleoedd wedi'u dyrannu. Bydd yr wybodaeth a gesglir drwy'r broses asesu safleoedd ymgeisiol, ynghyd â ffynonellau eraill o dystiolaeth yn cael eu defnyddio'n sail wrth gynnal ACI o'r safleoedd hynny.

4.13 Bydd safleoedd a chanddynt gyfyngiadau na ellir eu goresgyn yn cael eu heithrio rhag ystyriaeth bellach, a'r rhai sy'n perfformio'n wael yn erbyn y fframwaith ACI yn cael eu heithrio rhag ystyriaeth bellach. Bwriad y dull fesul cam hwn yw hidlo unrhyw safleoedd anghyflawnadwy neu amhriodol, fel nad yw ymgyngoreion statudol ond yn gwneud sylwadau ar safleoedd sy'n rhesymol debygol o gael eu dyrannu yn y CDLlN ac o gael eu cyflawni yn y pen draw.

### Cam 2 (B) Ymgyngoriadau Allanol

4.14 Bydd Cam 2 (B) yn cynnwys ymgynghori ag ymgyngoreion allanol i bennu anghenion seilwaith tebygol datblygiad a gwirio unrhyw effeithiau/mesurau lliniaru posibl neu waith ymchwilio pellach sydd ei angen i gefnogi safle datblygu. Bydd y rhain yn cynnwys ymgyngoriadau â Chyfoeth Naturiol Cymru, darparwyr seilwaith fel Dŵr Cymru (DC), y Bwrdd Iechyd Lleol, y Grid Cenedlaethol, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, Wales and West Utilities a Western Power Distribution (ymhlith eraill).

4.15 Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a geir yng Ngham 2 (B) i hidlo safleoedd i'w symud ymlaen i Gam 3 yr asesiad.

### Cam 3 - Gwerthuso safleoedd - Dilysu Profion Hyfywedd Safle-Benodol

4.16 Ar ôl hidlo'r safleoedd drwy gam 1 a cham 2A/B, bydd y Cyngor yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynnal arfarniad manwl o hyfywedd y safleoedd sy'n weddill. Er ei bod yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd gynnal asesiad hyfywedd cychwynnol wrth gyflwyno safle ymgeisiol, bydd yr asesiad hyfywedd manwl yn rhan o werthusiad a phroses y Cyngor ar gyfer dewis safleoedd i'w cynnwys yn y CDLlN (Cam 4).

4.17 Bydd yr wybodaeth a gesglir gan y Cyngor drwy ei ymgynghoriad mewnol ac allanol yn gysylltiedig â gofynion seilwaith yn cael ei rhannu â hyrwyddwyr safleoedd i'w defnyddio i brofi hyfywedd safleoedd. Bydd hefyd angen ystyried unrhyw ddiwygiadau i ofynion polisi a nodir yn rhan o adolygiad y Cyngor, yn enwedig unrhyw ddiwygiadau i drothwyon a thargedau tai fforddiadwy.

4.18 Yn ogystal â hynny, yn ystod y cam hwn bydd unrhyw broblemau a godir a allai effeithio ar y tebygolrwydd o ddyrannu neu ddynodi safle yn cael eu cyfeirio i sylw'r tirfeddiannwr, yr asiant neu'r sawl sydd â buddiant. Lle tybir y gellid mynd i'r afael â'r broblem, neu ei lliniaru, bydd cyfle i hyrwyddwr y safle nodi'r gwaith angenrheidiol a darparu costau dangosol wrth ddiweddaru'r dystiolaeth o hyfywedd.

### Cam 4 - Dewis y Safleoedd Terfynol

4.19 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r dewis terfynol o safleoedd ar sail y canlynol:

**1.** "Ffit gofodol" safleoedd mewn perthynas â Strategaeth Twf a Ffafrir, Amcanion Strategol a Hierarchaeth Aneddiadau'r Cyngor, a'r dystiolaeth gefndirol allweddol, ee tai a chyflogaeth, hyfywedd, asesiad strategol o ganlyniadau llifogydd, asesiad o'r seilwaith.

**2.** Barn broffesiynol ynghylch addasrwydd y safle o ran y cymeriad lleol a'i gyfraniad at amcanion creu lleoedd cenedlaethol (adran 6 o'r meini prawf asesu safleoedd).

**3.** Cynaladwyedd ac addasrwydd pob safle ar sail canfyddiadau'r asesiad o safleoedd ymgeisiol a'r ACI.

**4.** Gwybodaeth am argaeledd, cyflawnadwyedd a hyfywedd pob safle, a gasglwyd drwy'r arfarniadau hyfywedd manwl a gynhaliwyd yng ngham 3.

4.20 Bydd safleoedd sy'n perfformio orau yn erbyn yr uchod yn cael eu hystyried gan y Cyngor i'w cynnwys yn y Cynllun Adneuo.

4.21 Cyhoeddir y detholiad terfynol o safleoedd allweddol yn nrafft y Strategaeth a Ffafrir, a fydd yn esbonio dyheadau'r Cyngor o ran twf a'i flaenoriaethau strategol dros gyfnod y Cynllun. Disgwylir y bydd drafft y Strategaeth a Ffafri yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2023**.**

4.22 Bydd safleoedd a ddyrennir o fewn y Cynllun ar Adnau yn destun uwchgynllun yn unol â'r amcanion cenedlaethol ar gyfer creu lleoedd. Dylid cynnal cynnwys a fformat uwchgynlluniau yn unol â'r Llawlyfr CDLl (paragraff 5.4).

## 5. Ystyried safleoedd ychwanegol a gyflwynir ar ôl cyhoeddi drafft y Strategaeth a Ffafrir

5.1 Ar ôl cyhoeddi drafft y Strategaeth a Ffafrir, bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad 6 wythnos o hyd a'r cyhoedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd modd cyflwyno rhagor o safleoedd ymgeisiol i'r Cyngor. Bydd hefyd yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yng ngham y Strategaeth a Ffafrir gyflwyno'r holl dystiolaeth berthnasol sydd ei hangen i gefnogi'r safle, gan gynnwys arfarniad hyfywedd manwl, gan gynnwys ACI o'r safle yn seiliedig ar fframwaith ACI y Cyngor ar gyfer safleoedd ymgeisiol. Mae'n annhebygol y bydd safle a gyflwynir heb yr wybodaeth ofynnol yn cael ei ystyried yn addas i'w ddyrannu yn y Cynllun.

5.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r broses asesu olygu bod rhai safleoedd ymgeisiol sy'n perfformio'n dda yn erbyn y meini prawf asesu yn cael eu hepgor o'r Cynllun oherwydd lefelau twf a nodwyd. Gan hynny, os ceir canlyniadau ffafriol yn gysylltiedig â'r fethodoleg asesu safleoedd ymgeisiol, ni ddylid ystyried bod hynny'n golygu y bydd safle o reidrwydd yn cael ei ddyrannu i'w ddatblygu, nac y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer safle neilltuol. Er gwaethaf hyn, bydd y Cyngor yn ystyried yr angen lunio rhestr o safleoedd posibl wrth gefn, os bydd safleoedd eraill yn cael eu hepgor o'r CDLlN yn dilyn y Cam Adneuo , beth bynnag fo'r rheswm am hynny.

## 6. Meini Prawf Asesu

6.1 Mae'r meini prawf asesu yn adlewyrchu'r wybodaeth a geisir ar y ffurflen cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, a thrwy hynny'n galluogi hyrwyddwyr safleoedd i nodi a oes un cyfyngiad/dynodiad neu fwy yn effeithio ar safle. Mae'n ofynnol hefyd i'r hyrwyddwr ddarparu gwybodaeth ategol i esbonio sut y gellir mynd i'r afael ag unrhyw broblemau'n gysylltiedig â'r safle. Mae'r broses hefyd yn galluogi'r Cyngor i ofyn am ragor o wybodaeth gan hyrwyddwyr safleoedd os oes angen.

6.2 Lluniwyd y meini prawf asesu yn adran 6 i drafod ystod eang o ffactorau sy'n berthnasol wrth ystyried addasrwydd safleoedd posibl i'w cynnwys yn y CDLlN, yn ogystal â'u cydnawsedd â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol perthnasol.

- **Adran 1**. **Argaeledd y Safle:** - yn nodi'r meini prawf a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i bennu argaeledd a chyflawnadwyedd y safle dros gyfnod y Cynllun.

- **Adran 2: Cyflawnadwyedd a Hyfywedd y Safle -**yn archwilio hyfywedd a chyflawnadwyedd y safle yn erbyn yr wybodaeth gychwynnol a ddarparwyd am hyfywedd y safle. Lle na ddarparwyd astudiaethau o hyfywedd y safle, gall y Cyngor ofyn am y rhain gan hyrwyddwyr y safle, neu ofyn iddynt ddarparu manylion pellach. Bydd angen cynnal arfarniad manwl terfynol o hyfywedd safleoedd cyn pennu safleoedd i'w dyrannu yn y Cynllun, gan roi ystyriaeth i seilwaith angenrheidiol a nodwyd drwy'r broses asesu.

- **Adran 3**. **Ystyriaethau a Chyfyngiadau Amgylcheddol**- yn gosod y meini prawf er mwyn canfod a oes unrhyw gyfyngiad yn effeithio ar y safle a allai effeithio ar ei gyflawnadwyedd, ac effeithiau posibl safle ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

- **Adran 4**. **Hygyrchedd ac Agosrwydd at Wasanaethau a Chyfleusterau -**yn gosod y meini prawf a fydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried cynaliadwyedd y safle o ran ei berthynas â hierarchaeth aneddiadau y CDLl presennol yn ogystal â hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau.

- **Adran 5**. **Argaeledd Seilwaith -**yn galluogi'r Cyngor i bennu a oes unrhyw gyfyngiadau ar ddatblygu o ran seilwaith ategol, fel y cyflenwad dŵr a charthion, ac o ran darparu mynediad diogel i'r briffordd.

- **Adran 6 Creu Lleoedd -**yn nodi'r agweddau y bydd swyddogion yn eu hystyried wrth benderfynu ynghylch addasrwydd y safle, o ran y safle a'i berthynas â'r ffurf adeiledig, y raddfa a'r cymeriad presennol. Bydd yr asesiad hwn wedi'i seilio ar wybodaeth a gesglir drwy'r broses asesu ac arfarniadau ymweliad safle yn erbyn meini prawf penodol.

6.3 Mae pob un o'r meini prawf wedi'u cynnwys mewn categori 'Hollbwysig' neu 'Llai Pwysig':

- **Meini Prawf Cam 1:** Yn ymwneud â materion o bwys hanfodol. Lle mae safle'n arwain at wrthdaro ag un neu fwy o feini prawf, byddai datblygu'r safle yn debygol o arwain at niwed sylweddol i iechyd pobl, yr amgylchedd, neu wrthdaro â pholisi neu ddeddfwriaeth cynllunio cenedlaethol. Er enghraifft, risg uchel o lifogydd neu ddim yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol.

- **Meini Prawf Cam 2:** Yn ymwneud â materion cynllunio ac amcanion polisi pwysig. Lle mae safle'n gwrthdaro ag un neu fwy o feini prawf, efallai y bydd potensial i'r gwrthdaro gael ei

oresgyn, ei reoli neu ei liniaru. Er enghraifft, os yw safle wedi'i leoli mewn Ardal Gadwraeth, gallai'r CDLlN bennu safon uwch o ansawdd dylunio.

6.4 Defnyddir cod goleuadau traffig (gweler Tabl 1 isod) i bennu addasrwydd safleoedd yn erbyn y meini prawf asesu ym mhob adran, gan alluogi'r Cyngor i hidlo safleoedd yn dibynnu ar berfformiad safle yn erbyn canlyniadau'r meini prawf.

| **Tabl 1 – Canlyniadau'r Meini Prawf Asesu Safleoedd** | |
|---|---|
| **GWYRDD** | Cadarnhaol - Dim cyfyngiad ar ddatblygiad |
| **AMBR** | Ambr - Nodwyd cyfyngiadau y mae angen camau lliniaru/ymyrraeth polisi ar eu cyfer - Angen ystyriaeth bellach |
| **COCH** | Negyddol - Cyfyngiad mawr ar ddatblygiad, neu'n groes i bolisi cenedlaethol, neu heb ddarparu digon o wybodaeth. |

6.5 Yn fras, os yw safle'n sgorio coch yn erbyn maen prawf ystyrir bod cyfyngiad mawr yn effeithio ar y safle na ellir ei oresgyn drwy fesurau lliniaru fel perygl llifogydd, cyfyngiadau sy'n codi amheuon ynghylch cyflawnadwyedd y safle, neu lle bo safle'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol, fel datblygiadau ynysig mewn ardal o gefn gwlad agored. Gallai safleoedd y canfyddir eu bod creu canlyniad coch/negyddol, (gan gynnwys un sgôr coch) gael eu gwrthod ar y sail hon, yn dibynnu ar natur y cyfyngiad a nodwyd.

6.6 I'r gwrthwyneb, os bydd safle yn sgorio gwyrdd yn erbyn y meini prawf, ystyrir bod y safle'n rhydd rhag cyfyngiadau, yn gyflawnadwy ac o bosib yn hyfyw yn economaidd (y amodol ar brofion hyfywedd manwl), ac ystyrir ei fod yn creu canlyniad cadarnhaol o ran y polisi cynllunio cenedlaethol, cynaliadwyedd a chreu lleoedd.

6.7 Lle bo safle'n sgorio ambr, mae hyn yn dangos bod yr asesiad wedi amlygu cyfyngiadau neu nodweddion ar y safle y gellir eu lliniaru a'u cefnogi drwy dystiolaeth, fel asesiadau risg ecolegol neu lifogydd, ac y gellir ymdrin â hwy drwy ymyraethau polisi drwy'r CDLlN- er enghraifft, lle bo safle mewn Ardal Gadwraeth neu'n ffinio ag Ardal Tirwedd Arbennig (ATA), gallai'r CDLlN ragnodi dyluniad o safon uwch.

6.8 Yn hyn o beth, os yw hyrwyddwr y safle'n ymwybodol o gyfyngiadau sylweddol, er enghraifft os yw rhan o'r safle o fewn ardal lle ceir perygl llifogydd, neu bod gwerth ecolegol i'r safle, mae'n fuddiol i hyrwyddwyr y safle gyflwyno gwybodaeth ynghylch y cyfyngiad hwn wrth gyflwyno'r safle. Bydd nodi unrhyw broblemau'n fuan yn cynorthwyo'r cynigydd, y Cyngor a'r ymgyngoreion statudol i nodi mesurau priodol er mwyn helpu i liniaru unrhyw broblemau posibl. Os na ddarperir yr wybodaeth hon wrth gyflwyno'r safle, gall y Cyngor gysylltu â hyrwyddwyr y safle i'w hysbysu pa dystiolaeth ategol ychwanegol fydd ei hangen fel bo modd rhoi ystyriaeth fanwl i'r safle.

6.9 Bydd y gwerthusiad o'r safleoedd a'r dewis terfynol yn seiliedig ar drefn y safleoedd a'r dystiolaeth ategol. Mewn achosion lle bydd safleoedd yn sgorio nifer o sgoriau negyddol (coch) gan greu effeithiau na ellir eu goresgyn, sydd naill ai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol, neu lle na ddarparwyd digon o dystiolaeth neu unrhyw dystiolaeth i ddangos y gellir lliniaru'r effeithiau'n ddigonol, bydd y safleoedd hynny'n annhebygol o gael eu nodi i'w dyrannu o fewn y CDLlN. Wrth benderfynu pa safleoedd i'w cynnwys yn CDLlN, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried tystiolaeth a ddarperir i'r Cyngor gan ymgyngoreion statudol.

# 7. Meini Prawf Arfarnu Cynaliadwyedd

7.1 Gwnaed gwaith i ddatblygu methodoleg sy'n addas ar gyfer arfarnu opsiynau safleoedd a lefel y wybodaeth sydd ar gael, wrth adlewyrchu'r fframwaith ACI cystal â phosibl hefyd. Yn ei hanfod, roedd y fethodoleg yn cynnwys defnyddio setiau data Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, a mesur ('dadansoddiad meintiol') sut roedd pob opsiwn safle yn ymwneud â gwahanol nodweddion cyfyngol a chyfleoedd.

7.2 O ystyried y data prin sy'n benodol i safleoedd sydd ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o opsiynau, nid oedd modd trafod ('dadansoddiad ansoddol') rhinweddau pob opsiwn safle o dan y fframwaith ACI. Ni fyddai modd gwneud dadansoddiad ansoddol o opsiynau safleoedd oni bai bod amser/adnoddau ar gael i gynhyrchu data/datblygu dealltwriaeth ar gyfer pob opsiwn safle trwy ymweliadau safle a thrafodaeth â hyrwyddwyr. Heb y fath ddata/ddealltwriaeth, byddai unrhyw ymgais i wneud dadansoddiad ansoddol wedi arwain at risg o fias (e.e. gellid canfod bod safleoedd oedd yn cael eu hyrwyddo'n rhagweithiol yn perfformio'n ffafriol).

7.3 Defnyddiwyd dau offeryn Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol i arfarnu opsiynau safle gan ddibynnu ar y nodwedd a'r mesuriadau gofynnol. Roedd y rhain yn darparu naill ai:

1. Pellter llinell syth o nodwedd i opsiwn safle a chanran gorgyffwrdd unrhyw nodweddion o fewn opsiwn safle. Cymerwyd mesuriadau o ffin agosaf yr opsiwn safle a'r nodwedd. Neu
2. Bellteroedd a gyfrifir o opsiwn safle i nodwedd ar hyd rhwydwaith byd go iawn o ffyrdd a llwybrau cerdded trefol gan ddefnyddio Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig yr Arolwg Ordnans. Mae'r offeryn dadansoddi rhwydwaith yn helpu i ddarparu pellteroedd cerdded bras y byd go iawn. Cymerir mesuriadau o ffin y safle lle mae o fewn 20m i'r rhwydwaith ffyrdd/llwybrau cerdded ac felly tybir bod ganddo fynediad.

7.4 Cyflwynir methodoleg arfarnu opsiynau safleoedd yn **Nhabl 2** isod, gan nodi'r cwestiynau asesu, y trothwyon a'r meini prawf a ddefnyddir. Mae'r tabl yn cydnabod cyfyngiadau data. Mae'n bwysig bod yn glir mai'r nod o gategoreiddio perfformiad opsiynau safleoedd yw helpu i wahaniaethu, h.y. tynnu sylw at achosion o opsiynau safleoedd yn perfformio'n gymharol dda/gwael. Nid nodi 'effaith sylweddol' yw'r bwriad.[1]

**Tabl1: Fframwaith safleoedd ymgeisiol ACI a chwestiynau asesu**

| Themâu ACI | Amcanion ACI | | Cwestiynau asesu safle ymgeisiol ACI |
|---|---|---|---|
| **Economi a Chyflogaeth** | Cefnogi economi gref, amrywiol a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau newidiol a chefnogaeth i weithlu cryf yn y dyfodol. | ++ | Tir cyflogaeth newydd a gynigir ar y safle |
| | | + | Mae gan y safle fynediad da i gyflogaeth bresennol (o fewn 1,600m i ganolfan gyflogaeth) |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Mae'r math o ddatblygiad yn ansicr ar hyn o bryd |
| | | - | Mae gan y safle fynediad gwael i gyflogaeth bresennol (mwy na 1,600m i ganolfan gyflogaeth) |
| | | -- | Gallai datblygiad ar y safle arwain at golli tir cyflogaeth presennol |

[1] Er bod Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd nodi a gwerthuso effeithiau sylweddol y cynllun drafft a dewisiadau amgen rhesymol, ni thybir bod yn rhaid nodi a gwerthuso effeithiau sylweddol ar gyfer pob opsiwn safle a ystyrir.

| Themâu ACI | Amcanion ACI | | Cwestiynau asesu safle ymgeisiol ACI |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth a Chymunedau** | Darparu digon o dai marchnad a thai fforddiadwy o ansawdd da, a seilwaith cymunedol, mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd.<br><br>Gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaeth cymuned ac anheddiad. | ++ | Mae gan y safle le (> 100 o anheddau) i ddarparu nifer sylweddol o gartrefi newydd ac mae wedi'i gysylltu'n dda ag anheddiad sy'n bodoli eisoes |
| | | + | Mae gan y safle le (< 100 o anheddau) i ddarparu nifer sylweddol o gartrefi newydd ac mae wedi'i gysylltu'n dda ag anheddiad sy'n bodoli eisoes |
| | | 0 | Bydd y safle'n darparu defnyddiau amgen gan gynnwys cyflogaeth, addysg a chyfleuster cymunedol. |
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Gallai'r safle ddarparu cartrefi newydd; fodd bynnag, nid yw'r safle wedi'i gysylltu'n dda ag anheddiad sy'n bodoli eisoes. |
| | | -- | Gallai'r safle ddarparu cartrefi newydd; fodd bynnag, mae'r safle yn croesi ar draws lletem las ddynodedig ac nid yw wedi'i gysylltu'n dda ag anheddiad sy'n bodoli eisoes. |
| | | ++ | Mae'r safle o fewn pellter cerdded rhesymol (< 800m) i ysgol gynradd ac uwchradd (< 1,600m) |
| | | + | Nid yw'r safle o fewn pellter cerdded rhesymol (< 800m) i ysgol gynradd neu uwchradd (< 1,600m) |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Nid yw'r safle o fewn pellter cerdded rhesymol (< 800m) i ysgol gynradd neu uwchradd (< 1,600m) |
| | | -- | Mae'r safle'n > 1,600m o ysgol gynradd ac ysgol uwchradd |
| **Iechyd a lles** | Gwella iechyd a lles trigolion Bro Morgannwg trwy hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy | ++ | Mae'r safle o fewn 800m i gyfleuster iechyd a llwybr teithio llesol a byddai'n arwain at ddarparu gwell lle agored/hamdden |
| | | + | Mae'r safle o fewn 800m i gyfleuster iechyd neu lwybr teithio llesol |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Nid yw'r safle o fewn 800m i gyfleuster iechyd neu lwybr teithio llesol |
| | | -- | Nid yw’r safle o fewn 800m i gyfleuster iechyd neu llwybr teithio llesol a byddai ei ddatblygu'n arwain at golli lle agored/hamdden dynodedig |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol** | Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol | ++ | Mae'r safle o fewn un o'r 10-20% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae'r datblygiad yn cynnig darparu adeilad/lle crefyddol neu gymunedol newydd, lle mae diwylliant y Fro, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. |
| | | + | Mae'r safle o fewn un o'r 10-20% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru |
| | | 0 | Mae'r safle o fewn un o'r 30%-50% o ACEHI lleiaf difreintiedig yng Nghymru |

| Themâu ACI | Amcanion ACI | | Cwestiynau asesu safle ymgeisiol ACI |
|---|---|---|---|
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Dd/B |
| | | -- | Byddai datblygu ar y safle yn arwain at golli adeilad/lle crefyddol neu gymunedol lle mae diwylliant y Fro, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. |
| **Trafnidiaeth a symud** | Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio. | ++ | Mae'r safle yn agos (o fewn 800m) i drafnidiaeth gyhoeddus, canol tref a llwybr teithio llesol |
| | | + | Mae'r safle o fewn pellter cerdded rhesymol (o fewn 800m) i ddau o'r canlynol o leiaf: trafnidiaeth gyhoeddus, canol tref neu lwybr teithio llesol |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Nid yw'r safle o fewn pellter cerdded rhesymol (> 800m) i ddau o'r canlynol o leiaf: trafnidiaeth gyhoeddus, canol tref neu lwybr teithio llesol |
| | | -- | Nid yw'r safle o fewn pellter cerdded rhesymol (> 800m) i drafnidiaeth gyhoeddus, canol tref neu lwybr teithio llesol |
| **Adnoddau naturiol (Aer, Tir, Mwynau a Dŵr)** | Nodi a mynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd i leihau cysylltiad y boblogaeth â llygredd aer cymaint â phosib.<br><br>Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau sy'n bodoli eisoes i leihau'r pwysau ar gyfer datblygu meysydd glas a diogelu tir amaethyddol gradd uwch, lle y bo'n bosibl.<br><br>Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd y dŵr ac adnoddau dŵr. | ++ | Mae'r safle'n dir llwyd yn gyfan gwbl |
| | | + | Mae'r safle yn rhannol dir llwyd (> 50%) ac mae'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd isel (Gradd 3b, 4, trefol) |
| | | 0 | Effaith niwtral |
| | | ? | Mae'r safle yn rhannol faes glas (> 50%) ac mae'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd isel (Gradd 3b, 4, trefol) |
| | | - | Mae'r safle yn rhannol dir maes glas (> 50%) ac mae'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd isel (Gradd 3b, 4, trefol) |
| | | -- | Mae'r safle yn dir maes glas yn gyfan gwbl ac mae'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd uchel (Gradd 1, 2 a 3a) |
| | Diogelu adnoddau mwynau a chefnogi'r gwaith o reoli gwastraff. | | |
| | | ++ | Dd/B |
| | | + | Nid yw'r safle'n croesi ar draws safle mwynau |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Mae'r safle'n croesi ar draws safle mwynau |
| | | -- | Dd/B |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Diogelu a gwella bioamrywiaeth o fewn ardal y cynllun a'r cyffiniau. Bro Morgannwg | ++ | Dd/B |
| | | + | Tir llwyd yw'r safle ac mae cyfle i sicrhau ennill clir |
| | | 0 | Nid yw'r safle'n croesi ar draws unrhyw safleoedd dynodedig ac nid yw o fewn 1km i'r fath safleoedd |
| | | ? | Nid yw'r safle'n croesi ar draws unrhyw safleoedd dynodedig ac nid yw o fewn 1km i'r fath safleoedd ond |

| Themâu ACI | Amcanion ACI | | Cwestiynau asesu safle ymgeisiol ACI |
|---|---|---|---|
| | | | mae elfen o ansicrwydd yn ymwneud â'r potensial ar gyfer effeithiau sylweddol |
| | | - | Mae'r safle'n croesi ar draws neu mae'n gyfagos i safle dynodedig rhanbarthol neu leol (SGBRh, GNLl a SINC) a/neu gynefinoedd/rhywogaethau â blaenoriaeth |
| | | -- | Mae'r safle'n croesi ar draws neu mae'n gyfagos i safle dynodedig rhyngwladol (ACA, AGA, Ramsar) neu'n genedlaethol (SoDdGA, Coetir Hynafol). |
| **Amgylchedd Hanesyddol** | Cadw a gwella adnodd treftadaeth Bro Morgannwg, gan gynnwys ei hamgylchedd hanesyddol a'i hasedau archeolegol.<br><br>Hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Bro Morgannwg. | ++ | Adfywio tir llwyd sy'n croesi ar draws ased hanesyddol |
| | | + | Adfywio tir llwyd sydd o fewn 200m i ased hanesyddol |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Mae'r safle o fewn > 200m i ased hanesyddol |
| | | - | Mae'r safle o fewn 200m i ased hanesyddol dynodedig lleol neu genedlaethol |
| | | -- | Mae'r safle'n croesi ar draws neu mae'n gyfagos i ased hanesyddol dynodedig lleol neu genedlaethol |
| **Y Dirwedd** | Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd a threflun Bro Morgannwg. | ++ | Mae'r safle'n dir llwyd yn bennaf ac nid yw'n croesi ar draws Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig neu Ardal Tirwedd Arbennig |
| | | + | Nid yw'r safle'n croesi ar draws Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol neu Arbennig neu Ardal Tirwedd Arbennig |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Mae'r safle'n croesi ar draws Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig, neu/ac Ardal Tirwedd Arbennig |
| | | -- | Mae'r safle'n dir glas yn bennaf ac mae'n gyfan gwbl o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig neu/ac Ardal Tirwedd Arbennig |
| **Newid yn yr Hinsawdd** | Cefnogi gwydnwch Bro Morgannwg i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau afonol, arfordirol a dŵr wyneb.<br><br>Lleihau cyfraniad Bro Morgannwg at y newid yn yr hinsawdd yn sgil gweithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr. | ++ | Byddai datblygu ar y safle yn lleihau'r perygl o lifogydd ac mae cyfle i ddarparu ynni adnewyddadwy (e.e., rhwydwaith gwres ardal) |
| | | + | Nid yw'r safle'n croesi ar draws ardal perygl llifogydd uchel (parth llifogydd 2 a 3) |
| | | 0 | Dd/B |
| | | ? | Dd/B |
| | | - | Mae'r safle'n croesi ar draws parth llifogydd 2 neu 3 |
| | | -- | Mae'r safle'n gyfan gwbl o fewn parth llifogydd 2 neu 3 |

## Tabl 3: Allwedd ar gyfer safleoedd ymgeisiol ACI

| | |
|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol fawr |
| + | Effaith gadarnhaol fach |
| 0 | Effaith niwtral/dim effaith |
| ? | Effaith ansicr |

| | |
|---|---|
| - | Effaith negyddol fach |
| -- | Effaith negyddol fawr |

# 8. Meini Prawf Asesu Safleoedd Ymgeisiol

## 8.1. Argaeledd y Safle

### 8.1.1. Perchenogaeth ac Ystyriaethau Cyfreithiol *(Meini Prawf Cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Tir Cyhoeddus | **Gwyrdd** | Mae'r safle mewn strategaeth waredu gyhoeddedig. |
| | **Ambr** | Nid yw'r safle wedi'i gynnwys mewn strategaeth waredu gyhoeddedig eto, ond y mae dan ystyriaeth. |
| | **Coch** | Nid yw'r safle wedi'i gynnwys mewn strategaeth waredu gyhoeddedig. |
| Perchnogaeth tir | **Gwyrdd** | Mae'r safle'n eiddo i un tirfeddiannwr sy'n cefnogi'r cynnig ar gyfer y safle neu, os oes sawl perchennog, ceir tystiolaeth o gytundeb â'r cynnig ar gyfer y safle. |
| | **Ambr** | Mae'r safle yn eiddo i sawl tirfeddiannwr, ond nid oes tystiolaeth o gytundeb rhwng y partïon ynghylch y cynnig ar gyfer y safle. |
| | **Coch** | Ceir ansicrwydd ynghylch perchnogaeth y safle cyfan, neu ran ohono ac/neu nid yw'r tirfeddianwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer y safle. |
| Diddordeb gan Ddatblygwr | **Gwyrdd** | Ceir tystiolaeth bod gan ddatblygwr ddiddordeb yn y cynnig ar gyfer y safle, neu mae caniatâd cynllunio'n weithredol ar y safle. |
| | **Ambr** | Ni nodwyd unrhyw ddiddordeb gan ddatblygwr hyd yma, ond ceir tystiolaeth bod y perchennog/perchnogion yn mynd ati'n frwd i hyrwyddo'r safle. |
| | **Coch** | Nid oes tystiolaeth o ddiddordeb gan y datblygwr. |
| Cyfamodau cyfreithiol | **Gwyrdd** | Nid oes unrhyw hawliau cyfreithiol na chyfamodau cyfyngol mewn grym a fyddai'n atal datblygu |
| | **Ambr** | Mae hawliau cyfreithiol neu gyfamodau cyfyngol mewn grym ar yr holl dir, neu ran ohono, ac mae tystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos bod hyn yn annhebygol o effeithio ar ddyrannu rhan o'r tir neu'r tir yn ei |
| | **Coch** | Mae cyfamod mewn grym a fydd yn cyfyngu ar ddatblygu'r safle ar gyfer y defnydd a gynigir, neu ni chyflwynwyd digon o wybodaeth am unrhyw gyfamodau. |

8.1.1.2. **Eglurhad**

Mae'r Cyngor o'r farn nad yw derbyn ffurflen cyflwyno Safle Ymgeisiol o reidrwydd yn dangos bod safle ar gael i'w ddatblygu. O ran hyn, mae'r ffurflen yn cynnwys cwestiynau penodol am yr amserlen gyflawni a ddisgwylir gan hyrwyddwr y safle. Bydd gwybodaeth yn gysylltiedig a pherchnogaeth y tir a chyfamodau cyfreithiol a ddarperir drwy'r ffurflen cyflwyno Safle Ymgeisiol yn rhan o broses y Cyngor o ystyried argaeledd a chyflawnadwyedd safle, fel bo hynny'n berthnasol i anghytundeb posibl ynghylch perchnogaeth, lleiniau pridwerth ac ati.

Os oes ansicrwydd ynghylch a ellir ymdrin ag unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar y tir ai peidio, gall y Cyngor benderfynu bod cyfyngiadau'n effeithio ar y safle sy'n amharu ar ei argaeledd. Mewn achosion o'r fath, ystyrir nad yw'r safle'n gyflawnadwy.

### 8.1.2. Argaeledd y Safle *(Meini Prawf Cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Argaeledd y Safle | **Gwyrdd** | Ar gael i'w ddatblygu yn y tymor byr (o fewn 5 mlynedd) |
| | **Ambr** | Ar gael i'w ddatblygu yn y tymor canolig (5-10 mlynedd) |
| | **Coch** | Ar gael i'w ddatblygu yn y tymor hir (10 mlynedd neu fwy) |

#### 8.1.2.1. **Eglurhad**

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi pwys mawr ar y gallu i ddangos cyflenwad o safleoedd penodol sydd ar gael ac y gellir eu cyflawni, sy'n ddigonol i fodloni'r anghenion tai a nodwyd (gyda rhywfaint o ddarpariaeth ychwanegol er mwyn sicrhau hyblygrwydd).

Bydd safleoedd sydd ar gael ar unwaith ac yn y tymor byr yn cael eu ffafrio'n arbennig. Fodd bynnag, mae angen cyflenwad o safleoedd yng nghanol a thua diwedd cyfnod y cynllun hyd at 2036 hefyd, a bydd y Cyngor yn pennu argaeledd safleoedd dros gyfnod llawn y Cynllun, gan ystyried ystod o ffactorau a allai effeithio ar raddfeydd amser cyflawni, fel argaeledd cyllid, cynlluniau adfywio'r sector cyhoeddus neu raglenni i fuddsoddi mewn seilwaith cynhaliol.

Yn rhan o sylfaen dystiolaeth y CDLlN, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu taflwybr sy'n dangos pryd mae safleoedd yn debygol o gael eu dwyn ymlaen dros oes y Cynllun.

Dylai hyrwyddwyr tir ddarparu gwybodaeth i gefnogi eu bwriadau i ddwyn safle ymlaen, fel gwybodaeth am farchnata safleoedd, diddordeb gan ddatblygwyr ac ati. Wrth lunio'r amserlenni ar gyfer dwyn safle ymlaen, dylid ystyried trafodaethau cyn ymgeisio, ymgysylltu â'r cyhoedd ag ymgyngoriadau cyn ymgeisio, y raddfa amser er mwyn symud y cais cynllunio drwy'r broses rheoli datblygu, a'r amser a gymerir i gychwyn datblygu. Wrth ystyried y ffactorau hyn, ni fydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â safleoedd os yw o'r farn fod problemau sylfaenol yn gysylltiedig â'r graddfeydd amser cyflawni.

| **Canlyniad yr Asesiad o Argaeledd Safle** | |
|---|---|
| Ystyrir bod y safle ar gael i'w ddatblygu | ☐ (Gwyrdd) |
| Mae rhai cyfyngiadau o ran perchnogaeth yn effeithio ar y safle, a gellir mynd i'r afael â'r rhain | ☐ (Ambr) |
| Mae cyfyngiadau o ran perchnogaeth yn effeithio ar y safle, ac ni ellir mynd i'r afael â'r rhain, neu darparwyd gwybodaeth annigonol | ☐ (Coch) |

## 8.2. Hyfywedd y Safle

### 8.2.1. Arfarniad cychwynnol o hyfywedd *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Hyfywedd | **Gwyrdd** | Mae arfarniad cychwynnol wedi'i gynnal o hyfywedd y safle, ac mae ei hyfywedd oddi mewn i'r paramedrau a nodwyd gan y Cyngor. Mae angen cynnal asesiad manwl pellach yn rhan o'r broses o asesu safleoedd ymgeisiol. |
| | **Ambr** | Mae arfarniad cychwynnol wedi'i gynnal o hyfywedd y safle. Mae angen cadarnhad pellach o'r agweddau sy'n effeithio ar hyfywedd cyn bwrw ymlaen ymhellach. |
| | **Coch** | Ni chynhaliwyd unrhyw arfarniad cychwynnol o hyfywedd - ni wyddys i ba raddau y mae'r safle yn hyfyw neu'n gyflawnadwy.<br>**Neu**<br>Mae arfarniad o hyfywedd y safle wedi'i gynnal ac yn dangos hyfywedd ymylol o ran bodloni rhwymedigaethau tai fforddiadwy, a rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol eraill y Cynllun. |

#### 8.2.1.1. **Eglurhad:**

Mae angen cyflwyno arfarniad cychwynnol o hyfywedd safle i gyd-fynd â phob safle a gyflwynir ar gyfer datblygiad preswyl (ac eithrio llety i sipsiwn a theithwyr) a datblygiad masnachol. Bydd cyflwyno arfarniad cychwynnol o hyfywedd yn rhoi syniad o gyflawnadwyedd tebygol safle, yn ogystal â bwriadau hyrwyddwr y safle i fwrw ymlaen â'r safle dros gyfnod y Cynllun.

Mae'n rhaid i'r arfarniad cychwynnol hwn ddangos sut mae'r safle'n bodloni'r paramedrau hyfywedd bras a nodwyd gan y Cyngor yn ogystal â thargedau tai fforddiadwy. ***Ceir rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r arfarniad yn y canllawiau hyfywedd a ddarperir gan y Cyngor.***

Os bydd safleoedd yn symud ymlaen drwy broses ddatblygu'r CDLlN, bydd angen gwybodaeth ac asesiadau ychwanegol i sicrhau y gall y safle fodloni gofynion polisi a pharhau i fod yn hyfyw ac yn gyflawnadwy. Os codir cwestiynau yn yr asesiad cychwynnol ynghylch gallu'r safle i gyrraedd y targedau gofynnol o ran tai fforddiadwy a'r rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol, bydd y safle'n cael ei hepgor o unrhyw ystyriaeth bellach. ***Yn yr un modd, bernir bod safleoedd a gyflwynir heb yr arfarniad cychwynnol o hyfywedd yn annichonadwy, ac ni fyddant yn symud ymlaen i Gam 2.***

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad strategol o hyfywedd i ystyried cyfraniadau'n gysylltiedig â rhwymedigaethau cynllunio a nodi costau datblygu i'w defnyddio fel meincnod o fewn yr awdurdod. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hystyried wrth ddilysu'r wybodaeth a gyflwynir mewn arfarniadau hyfywedd. Os bydd safleoedd yn symud ymlaen drwy broses ddatblygu'r CDLlN, bydd angen gwybodaeth ac asesiadau ychwanegol i sicrhau y gall y safle fodloni gofynion polisi a pharhau i fod yn hyfyw ac yn gyflawnadwy**.**

| |
|---|
| **Canlyniad yr Asesiad o Gyflawnadwyedd a Hyfywedd** |
| |

| | |
|---|---|
| Wedi cynnal arfarniad cychwynnol o hyfywedd sy'n rhoi syniad digonol o hyfywedd a chyflawnadwyedd y safle | ☐ |
| Wedi cynnal arfarniad cychwynnol o hyfywedd, ond mae angen gwybodaeth bellach i bennu a yw'r safle'n hyfyw ac yn gyflawnadwy | ☐ |
| Ni chynhaliwyd unrhyw arfarniad cychwynnol o hyfywedd - ni wyddys i ba raddau y mae'r safle yn hyfyw neu'n gyflawnadwy.<br>**Neu**<br>Mae arfarniad o hyfywedd y safle wedi'i gynnal ac yn dangos hyfywedd ymylol o ran bodloni rhwymedigaethau tai fforddiadwy, a rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol y Cynllun. | ☐ |

## 8.3. Nodweddion y Safle: Cyfyngiadau Amgylcheddol a Ffisegol

### 8.3.1. Parthau Perygl Llifogydd *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Parthau Perygl Llifogydd | **Gwyrdd** | Mae'r safle wedi'i nodi'n safle oddi mewn i ardal Parth Llifogydd 1 neu Ardal Amddiffynedig TAN15, lle bo'r cynnig yn bodloni'r prawf cyfiawnhad a derbynioldeb canlyniadau a nodir yn TAN15. |
| | **Ambr** | Mae'r safle o fewn ardal Parth Llifogydd 2 neu 3 **AC** yn bodloni'r prawf cyfiawnhad a'r derbynioldeb canlyniadau yn adran 10 ac 11 o TAN 15 **NEU** yn bodloni'r diffiniad o ddatblygiad sy'n gydnaws â dŵr. |
| | **Coch** | Mae'r safle naill ai o fewn Ardal Amddiffynedig TAN 15, neu mewn ardal Parth Llifogydd 2 neu 3, ac nid yw'n bodloni'r prawf cyfiawnhad na'r derbynioldeb canlyniadau yn adran 10 ac 11 o TAN 15. |

#### 8.3.1.1. **Eglurhad**

Mae'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi pwys mawr ar fynd i'r afael â pherygl llifogydd drwy'r system gynllunio ac mae'n glir y dylid osgoi datblygu amhriodol mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, gan gyfeirio datblygiad i ffwrdd o'r ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf - boed y perygl hwnnw'n bresennol ar y pryd, neu mewn ardal lle gallai perygl llifogydd gynyddu yn y dyfodol yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r matrics sgorio Perygl Llifogydd yn seiliedig ar y Dosbarthiad Perygl Llifogydd a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 15 Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Rhagfyr 2021) a bydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried y perygl posibl a'r amlygiad i lifogydd, yn ogystal ag erydiad arfordirol, mewn safleoedd ymgeisiol a gyflwynir. Ei nod yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r canlynol wrth ddewis safleoedd:

- Cyfeirio datblygiad newydd tuag at ardaloedd lle ceir y lleiaf o berygl llifogydd - ardaloedd ym Mharth 1,
- Galluogi datblygiadau cydnerth mewn ardaloedd a wasanaethir gan amddiffynfeydd ffurfiol i reoli perygl llifogydd sy'n lleihau'r perygl a chanlyniadau llifogydd dros oes y datblygiad - ardaloedd ym Mharthau Amddiffynedig TAN 15.
- Caniatáu datblygiadau cydnerth mewn ardaloedd heb eu hamddiffyn lle bo lefel y perygl yn gymharol isel - ardaloedd ym Mharth 2;

- Dim ond caniatáu datblygiadau sy'n gydnaws â dŵr, seilwaith hanfodol a datblygiadau llai agored i niwed fel eithriad mewn ardaloedd lle mae lefel y perygl yn uwch - ardaloedd ym Mharth 3.

Wrth ddewis safleoedd, bydd y Cyngor yn cymhwyso'r dull dilyniannol, fel sy'n ofynnol mewn polisi a chanllawiau cenedlaethol:

**Safleoedd ym Mharth 1:**

Rhoddir y flaenoriaeth i leoli datblygiad ym Mharth 1 neu mewn Ardal Amddiffynedig TAN 15, lle ceir ACLl i gefnogi'r cynnig sy'n dangos bod canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd i'r datblygiad a gynigir yn dderbyniol, yn unol â'r meini prawf yn adran 11 o TAN 15 (2021).

**Ni chaiff safle ym Mharth 2 ond ei ystyried yn yr amgylchiadau canlynol:**

Os bydd yn cynorthwyo strategaeth, neu'n rhan o strategaeth, a gefnogir gan y Cynllun Datblygu i adfywio anheddiad presennol neu gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol, neu ymdrin ag anghenion diogelwch neu ynni gwladol; AC

- Os yw ei leoliad yn bodloni'r diffiniad o safle tir llwyd, Ac
- Os ceir ACLl i'w gefnogi sy'n dangos bod canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd i'r datblygiad a gynigir yn dderbyniol, yn unol â'r meini prawf yn adran 11 o TAN 15 (2021).

**Ni chaiff safle ym Mharth 3 ond ei ystyried yn yr amgylchiadau canlynol:**

- Bod angen y datblygiad mewn amgylchiadau eithriadol, fel y diffinnir yn TAN, ee, ymdrin ag anghenion diogelwch gwladol neu ddiogelu ynni, rhesymau'n gysylltiedig â iechyd y cyhoedd, neu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, AC
- Os yw ei leoliad yn bodloni'r diffiniad o safle tir llwyd, Ac
- Os ceir ACLl i'w gefnogi sy'n dangos bod canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd i'r datblygiad a gynigir yn dderbyniol, yn unol â'r meini prawf yn adran 11 o TAN 15 (2021).

Yn unol â TAN 15 - mae datblygiad sy'n gydnaws â dŵr yn dderbyniol, o safbwynt llifogydd, ym mhob parth llifogydd. Mae'r rhain yn cynnwys iardiau cychod, marinas a gwaith hanfodol sydd ei angen ar fasnau angori; datblygiadau sy'n gysylltiedig â chamlesi, amddiffynfeydd llifogydd a seilwaith rheoli; mannau agored (ac eithrio mannau chwarae â chyfarpar) a chynhyrchu ynni dŵr adnewyddadwy.

Ym mhob achos lle bydd safle wedi'i leoli ym Mharth 2 neu Barth 3, ac y bernir ei fod yn bodloni prawf cyfiawnhad TAN 15, bydd yn rhaid i hyrwyddwyr y safle gynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLl) a chyflwyno'r asesiad hwnnw wrth gyflwyno'r safle ymgeisiol. Yn yr ACLl rhaid esbonio'n glir sut y gellir rheoli'r perygl llifogydd yn unol â gofynion polisi cenedlaethol a geir yn TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd. Bydd safleoedd a gyflwynir heb ACLl, neu nad ydynt yn bodloni'r profion yn cael eu diystyru rhag unrhyw ystyriaeth bellach.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 1 i nodi effeithiau posibl y newid hinsawdd ar berygl llifogydd i'r datblygiadau hyd ddiwedd eu hoes. Ni symudir ymlaen â safleoedd lle nodir perygl llifogydd drwy'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, oni ddarparwyd tystiolaeth bellach i liniaru, neu i ddeall y ffactorau a gysylltir â'r perygl llifogydd hwnnw.

### 8.3.2. Llifogydd Dŵr Wyneb *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Llifogydd Dŵr Wyneb | **Gwyrdd** | Nodwyd bod y safle mewn ardal Parth Llifogydd 1, lle nad oes rhyw lawer o duedd am lifogydd dŵr wyneb, na llifogydd o ffynonellau eraill. |
| | **Ambr** | Nodwyd bod y safle mewn ardal Parth Llifogydd 2, lle mae'r duedd am lifogydd dŵr wyneb ac/neu lifogydd o ffynonellau eraill ar lefel ganolig, ond lle gellir lliniaru hynny |
| | **Coch** | Nodwyd bod y safle mewn ardal Parth Llifogydd 3 lle mae'r duedd am lifogydd dŵr wyneb ac/neu lifogydd o ffynonellau eraill ar lefel uchel, ac yn annhebygol o gael ei datrys drwy fesurau lliniaru. |

#### 8.3.2.1. **Eglurhad:**

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys dau barth perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Mae Parth 3 yn cynnwys ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf, ac mae ardaloedd Parth 2 yn wynebu llai o berygl. Mae'r ardaloedd lle yr ystyrir bod y perygl llifogydd ar ei isaf o'r ffynonellau hyn ym Mharth 1. Yn achos Parth 2 neu 3, bydd yn ofynnol cyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer yr holl safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn llwyr neu'n rhannol ym Mharthau Llifogydd 2 a 3, neu ar safleoedd sy'n cydffinio â Pharthau 2 a 3. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried canfyddiadau ei Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd i benderfynu a fydd angen cynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar gyfer unrhyw safle ym Mharth 1.

### 8.3.3. Tir Llwyd/Maes Glas (meini prawf cam 2)

| | | |
|---|---|---|
| Tir Llwyd /Maes Glas | **Gwyrdd** | Mae'r safle yn safle tir llwyd/wedi'i danddefnyddio oddi mewn i anheddiad presennol neu'n ffinio â'r anheddiad hwnnw |
| | **Ambr** | Mae'r safle yn faes las sy'n cydffinio ag anheddiad presennol |
| | **Coch** | Mae'r safle yn faes glas mewn ardal o gefn gwlad agored |

#### 8.3.3.1. **Eglurhad:**

Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd ailddefnyddio safleoedd tir llwyd ac yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol weithredu'r dull dilyniannol o nodi safleoedd i'w datblygu, gan ffafrio safleoedd tir llwyd oddi mewn i aneddiadau presennol, neu'n ffinio â'r aneddiadau hynny, a safleoedd maes glas cynaliadwy ar ymyl aneddiadau ar ôl hynny, ar y cyd â ffactorau eraill gan gynnwys ansawdd tir amaethyddol.

### 8.3.4. Dynodiadau Ecolegol a Rhywogaethau Gwarchodedig

#### 8.3.4.1. **Safleoedd Ewropeaidd** ***(meini prawf cam 1)***

| | | |
|---|---|---|
| Dynodiadau Ecolegol a Rhywogaethau Gwarchodedig<br><br>**Safleoedd Ewropeaidd: ACA/AGA/RAMSAR** | **Gwyrdd** | Nid yw'n niweidio dynodiad ACA/AGA/Ramsar. |
| | **Ambr** | Gallai niweidio dynodiad ACA/AGA/RAMSAR, ond gellir rhoi mesurau lliniaru a gwella priodol ar waith i liniaru hynny. |
| | **Coch** | Bydd y datblygiad yn cael effaith sylweddol ar ddynodiad ACA/AGA/RAMSAR |

8.3.4.1.1. **Eglurhad**

Caiff safleoedd bywyd gwyllt o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol eu gwarchod drwy bolisi a deddfwriaeth genedlaethol, felly bydd cynigion a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar hygrededd y dynodiadau canlynol yn cael ei diystyru rhag ystyriaeth bellach:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) – cynefinoedd anifeiliaid a phlanhigion a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) – cynefinoedd adar gwyllt a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt.
- Safleoedd sydd ar ganol cael eu troi'n ACAoedd neu'n AGAoedd; ac sy'n safleoedd wedi'u nodi neu'n ofynnol fel mesurau cydadferol am effeithiau andwyol ar safleoedd Ewropeaidd; a
- Safleoedd 'Ramsar' rhestredig ac arfaethedig – gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol

Os bydd safle o fewn 100m i ACA/AGA/RAMSAR, cynhelir ymgynghoriad â CNC i ganfod beth fydd effaith y cynnig ar y dynodiad, a hefyd i ystyried effaith y cynnig ar gyfleoedd am gysylltedd ecolegol ac ymaddasrwydd i newid yn unol â pholisi cenedlaethol. Os tybir y byddai'r cynigion yn niweidio'r dynodiad, fe'u diystyrir rhag ystyriaeth bellach.

Ystyrir effaith (unigol a chronnus) safleoedd ymgeisiol ar y dynodiadau uchod drwy Adroddiad Asesu'r Rheoliad Cynefinoedd (Asesiad Priodol). Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer dewis safleoedd a llunio polisïau, gan gynnwys lliniaru effeithiau ar fioamrywiaeth a chynefinoedd.

8.3.4.2. **Dynodiadau SoDdGA a Choetiroedd Hynafol *(meini prawf cam 1)***

| | | |
|---|---|---|
| Dynodiadau Ecolegol a Rhywogaethau Gwarchodedig<br><br>**SoDdGA a Choetiroedd Hynafol** | **Gwyrdd** | Nid yw'n niweidio'r dynodiad SoDdGA/Coetir Hynafol |
| | **Ambr** | Gallai niweidio dynodiad SoDdGA/Coetir Hynafol ond gellir gweithredu cynigion lliniaru a gwella er mwyn peidio effeithio ar nodweddion y safle. |
| | **Coch** | Bydd y datblygiad yn cael effaith sylweddol ar ddynodiad SoDdGA/Coetir Hynafol. |

8.3.4.2.1. **Eglurhad**

Lle bo safle o fewn 100m i SoDdGA/Coetir Hynafol, cynhelir ymgynghoriad â CNC i ganfod beth fydd effaith y cynnig ar y dynodiad, a hefyd i ystyried effaith y cynnig ar gyfleoedd am gysylltedd ecolegol ac ymaddasrwydd i newid yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Os tybir y byddai'r cynigion yn niweidio'r dynodiad, fe'u diystyrir rhag ystyriaeth bellach.

### 8.3.4.3. Safleoedd a Warchodir yn Lleol (Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur [SINCS] a Gwarchodfeydd Natur Lleol) *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Dynodiadau Ecolegol a Rhywogaethau Gwarchodedig Safleoedd a Warchodir yn Lleol- **SINCS, Gwarchodfeydd Natur Lleol** | **Gwyrdd** | Nid yw'n niweidio safleoedd a ddynodwyd yn lleol. |
| | **Ambr** | Gallai niweidio naill ai SINC neu Warchodfa Natur Leol, ond gellir gweithredu mesur lliniaru priodol er mwyn osgoi difrod sylweddol. |
| | **Coch** | Bydd datblygu yn amharu'n sylweddol ar safle a ddynodwyd yn lleol. |

#### 8.3.4.3.1. Eglurhad:

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd statudol i "gynnal a gwella bioamrywiaeth" wrth gyflawni swyddogaethau statudol, ac i sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan annatod o'r penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â Chymru.

O ganlyniad i hynny, bydd yr asesiad o safleoedd yn ystyried sut y byddai cynigion yn effeithio ar ddynodiadau ecolegol lleol presennol, ac yn ystyried sut y bydd cynigion yn cyfrannu at wella bioamrywiaeth, systemau ecolegol a rhwydweithiau yn unol â pholisi cenedlaethol.

Bydd cynigion sy'n arwain at golled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaeth yn lleol neu'n genedlaethol yn cael eu diystyru rhag ystyriaeth bellach. Wrth ystyried addasrwydd safleoedd, bydd yr asesiad yn ystyried y canlynol:

- Yr amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
- y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt.
- graddfa ecosystemau;
- cyflwr ecosystemau, gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad; a
- gallu ecosystemau i ymaddasu

Wrth ystyried yr effaith ar ddynodiadau presennol a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth, ymgynghorir â Swyddog Ecoleg y Cyngor i bennu addasrwydd safleoedd, ac i ystyried yr wybodaeth ategol a ddarparwyd gan hyrwyddwyr safle o ran yr hyn a gynigir fel mesurau lliniarol neu welliannau ecolegol.

### 8.3.5. Yr Amgylchedd Hanesyddol *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Yr Amgylchedd Hanesyddol | **Gwyrdd** | Nid yw'r safle'n cynnwys, neu nid yw'n agos at ased hanesyddol, lleoliad ased hanesyddol nac/neu ardal sy'n sensitif am resymau archeolegol. |
| | **Ambr** | Mae'r safle'n cynnwys, neu'n agos at, ased hanesyddol, lleoliad ased hanesyddol ac/neu ardal sy'n sensitif am resymau archeolegol, ac mae'n debygol y gellir gweithredu mesurau lliniaru priodol. |
| | **Coch** | Mae'r safle'n cynnwys, neu'n agos at, ased hanesyddol, lleoliad ased hanesyddol ac/neu ardal sy'n sensitif am resymau archeolegol, a byddai'n niweidio arwyddocâd yr ased hanesyddol, neu mae'n annhebygol y gellir gweithredu mesurau lliniaru priodol. |

#### 8.3.5.1. **Eglurhad**

Bydd agosrwydd at Ardaloedd Cadwraeth ac asedau treftadaeth (sef adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig) ac effaith y safle arfaethedig yn cael eu hystyried drwy ymgynghori â Swyddog Cadwraeth y Cyngor a, lle bo'n berthnasol, CADW i gael gwell dealltwriaeth o arwyddocâd asedau treftadaeth ac effeithiau posibl safleoedd a gyflwynir.

Bydd ymgyngoriadau hefyd yn cael eu cynnal ag
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent er mwyn helpu i adnabod unrhyw asedau archeolegol neu agweddau sensitif
y gallai'r safleoedd a gyflwynwyd effeithio arnynt. Ni symudir ymlaen â safleoedd a allai effeithio ar osodiad
neu nodweddion Henebion Rhestredig neu Olion o Bwysigrwydd Cenedlaethol
.

I gyfyngu ar niwed i'r amgylchedd hanesyddol, bydd safleoedd nad ydynt yn cynnwys ased treftadaeth neu nad ydynt o fewn ardal gadwraeth yn cael eu ffafrio'n fwy na safleoedd sy'n cynnwys ased treftadaeth neu sydd wedi'u lleoli o fewn ardal gadwraeth, yn unol â'r matrics.

### 8.3.6. Ansawdd Tir Amaethyddol *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Tir Amaethyddol | **Gwyrdd** | Mae'r safle yn dir a ddatblygwyd o'r blaen, neu ni fyddai'n golygu colli'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas |
| | **Ambr** | Byddai'r safle'n golygu colli tir BMV gradd 3a |
| | **Coch** | Byddai'r safle'n golygu colli naill ai tir amaethyddol Gradd 1 neu 2 |

#### 8.3.6.1. **Eglurhad:**

Diffinnir y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV) yn PCC fel Graddau 1, 2 a 3a, ac mae'n dir o ansawdd da i ardderchog, ac o'r ansawdd gorau er mwyn tyfu bwyd a chnydau eraill.

Yn ôl polisi cynllunio cenedlaethol, ni chaiff tir o raddau 1, 2 a 3a ond ei ystyried i'w ddatblygu os oes angen sy'n drech na dim arall am y cynnig, a bod naill ai tir a ddatblygwyd o'r blaen neu dir o raddau amaethyddol is heb fod ar gael, neu fod tir o radd is ar gael a chanddo werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol sy'n gwrthbwyso'r ystyriaethau amaethyddol. Mae'r maen prawf asesu safleoedd yn adlewyrchu'r egwyddorion diogelu a nodwyd yn y polisi cynllunio cenedlaethol, gan ffafrio datblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen neu dir amaethyddol o ansawdd is.

Cynhelir dadansoddiad bwrdd gwaith GIS i ddechrau er mwyn adnabod tir BMV, drwy ddefnyddio'r Map Dosbarthu Tir Amaethyddol Rhagfynegol - cynigir mynediad i'r haen hon o'r map hefyd i hyrwyddwyr safleoedd, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i ragfynegi Gradd tir ar sail genedlaethol. Lle bo'r Map Dosbarthu Tir Amaethyddol Rhagfynegol yn nodi graddau 1, 2 neu 3a, bydd yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd gynnal Arolwg Dosbarthu Tir Amaethyddol i bennu'r Graddau presennol a chyfran y Graddau hynny.

### 8.3.7. Adnoddau Mwynol *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Parthau Clustogi Mwynau ac Ardaloedd Diogelu Mwynau | **Gwyrdd** | Nid yw'r safle o fewn ardal diogelu mwynau, neu ni fyddai'r cynnig yn creu rhwystr parhaol, a diangen, rhag echdynnu adnodd mwynol a ddiogelir. Nid yw'r safle o fewn parth clustogi mwynau, nac wedi'i ddosbarthu ar gyfer defnydd sensitif o fewn parth clustogi. |
| | **Ambr** | Mae'r safle o fewn ardal diogelu mwynau ond gallai echdynnu blaenorol achosi effeithiau annerbyniol ar nodweddion amgylcheddol pwysig. Mae'r safle o fewn parth clustogi mwynau ond nid yw'n peryglu gweithrediad y safle echdynnu mwynau. |
| | **Coch** | Mae'r safle o fewn ardal diogelu mwynau, a byddai ei ddatblygu yn creu rhwystr parhaol diangen i'r adnodd mwynol. Mae'r safle wedi'i nodi ar gyfer defnydd sensitif o fewn Parth Clustogi Mwynau. |

#### 8.3.7.1. **Eglurhad:**

Nid yw diogelu adnoddau mwynol na chynnwys tir o fewn Ardal Diogelu Mwynau yn rhagdybio y rhoddir caniatâd ar gyfer datblygiad gwaith mwynol. Mae'r mapiau diogelu mwynau yn dangos crynhoad neu bresenoldeb tebygol mwynau yng nghramen y ddaear. Mae'r rhain yn adnoddau cyfyngedig sy'n hanfodol i gymdeithas a chenedlaethau'r dyfodol, felly mae polisi cynllunio yn diogelu'r adnoddau hyn fel nad oes mathau eraill o ddatblygiadau parhaol yn creu rhwystr i'r adnodd mwynol. Fodd bynnag, nid yw'r Mapiau Diogelu Mwynau yn darparu gwybodaeth bendant ynghylch swm nac ansawdd y mwynau nac ychwaith ynghylch y cyfyngiadau amgylcheddol yn gysylltiedig ag echdynnu, na hyfywedd economaidd echdynnu.

O ganlyniad i hynny, mae angen manylion ychwanegol mewn ardaloedd diogelu mwynau i ddangos na fyddai'r dyraniad a gynigir yn creu rhwystr diangen i adnoddau mwynol pwysig. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu CCA Diogelu Mwynau o dan y CDLl mabwysiedig presennol sy'n rhoi manylion ychwanegol ynghylch sut i ddangos na fyddai datblygiad yn creu rhwystr diangen i adnoddau mwynol sydd wedi'u diogelu. Er bod y CCA wedi'u mabwysiadu o dan y CDLl presennol, ystyrir bod yr wybodaeth a ddarperir yn y CCA yn dal i fod yn berthnasol, ac

yn sicrhau bod dyraniadau a gynigir yn dangos bod dyraniad yn cydymffurfio â'r polisi cenedlaethol yn PCC.

Yn y CCA Diogelu Mwynau, nodir 4 ystyriaeth bosibl a fyddai'n dangos bod dyraniad o fewn Ardal Diogelu Mwynau yn briodol. Dyma'r ystyriaethau hynny:

- Y gellir echdynnu unrhyw gronfeydd o fwynau yn economaidd cyn dechrau'r datblygiad; neu
- Byddai echdynnu yn cael effaith annerbyniol ar ystyriaethau amgylcheddol neu amwynderol; neu
- Na fyddai gan y datblygiad unrhyw effaith arwyddocaol ar y posibilrwydd o weithio'r adnodd oherwydd ei natur neu ei faint; neu
- Fod yr adnodd dan sylw o ansawdd neu o faint gwael.

Bydd yn rhaid i ddyraniad gynnwys Asesiad Mwynol sy'n cynnwys ystyriaeth o un neu fwy o'r uchod. Dylai maint yr wybodaeth a ddarperir fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad. Ceir gwybodaeth bellach ynghylch sut i ystyried pob pwynt yn y CCA Mwynau (gweler Adran 5) (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Policy/Welsh-Minerals-SPG-2018-Formatted.pdf

Mae'n ofynnol creu parthau clustogi mwynau o amgylch safleoedd echdynnu mwynau a ganiateir ac a ddyrennir. O fewn y parth clustogi, ni ddylid dyrannu unrhyw ddatblygiad sensitif na gwaith echdynnu mwynau. Datblygiad sensitif yw unrhyw adeilad a feddiannir yn rheolaidd, ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hosteli, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai, lle dylid disgwyl amwynder o safon dderbyniol. Gallai datblygiad sensitif hefyd gynnwys datblygiad diwydiannol uwch-dechnoleg arbenigol lle bydd anghenion gweithredol yn mynnu safonau uchel o ran amwynder.

Gellid ystyried dyraniadau mewn parth clustogi pe na bai'r defnydd a gynigir yn amharu ar weithrediad y safle echdynnu mwynau.

Bydd Swyddog Mwynau'r Cyngor yn cael gwahoddiad i gynnig sylwadau ar safleoedd unigol, ac i nodi'r safleoedd hynny y mae polisïau Mwynau a Gwastraff yn effeithio arnynt. Os bydd safle'n gwrthdaro'n uniongyrchol â pholisi mwynau gellir gwrthod y safle ar sail hynny.

### 8.3.8. Dynodiadau Lletem Las *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Lletem Las | **Gwyrdd** | Nid yw'r cynnig o fewn Lletem Las |
| | **Ambr** | Mae'r safle o fewn Lletem Las, ond ni fyddai'r datblygiad a gynigir yn niweidio hygrededd y dynodiad. |
| | **Coch** | Mae'r cynnig o fewn Lletem Las, a byddai'n niweidio hygrededd y dynodiad ac yn achosi mwy o gyfuno rhwng aneddiadau |

#### 8.3.8.1. **Eglurhad:**

Mae dynodiadau lletem las yn atal blerdwf trefol gan ddiogelu natur agored y tir, a gellir eu defnyddio i gyfyngu ar ledaeniad datblygiad adeiledig y tu hwnt i ffiniau aneddiadau, i ddiogelu golygfeydd pwysig tuag at ardal ac allan ohoni, atal aneddiadau rhag cyfuno, neu greu clustog rhwng ymyl anheddiad a dynodiadau statudol. Gall Lletemau Glas hefyd gynnig swyddogaeth bwysig o ran cadwraeth natur drwy ddarparu coridorau gwyrdd rhwng

ardaloedd trefol ac wrth ddatblygu rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, gan alluogi mynediad ar gyfer cyfleusterau hamdden anffurfiol o amgylch aneddiadau.

Ym Mholisi Cynllunio Cymru (3.64-3.78) nodir bod yn rhoi cadw rheolaeth ofalus ar gynigion o fewn lletemau glas, ac ni ddylid ond eu caniatáu os ydynt yn cadw natur agored y Llain Las neu'r Lletem Las, lle nad ydynt yn gwrthdaro a dibenion y dynodiad. Ceir eithriadau i hyn yn gysylltiedig â naill ai:

- Anghenion menter wledig y gellir eu cyfiawnhau.
- cyfleusterau hanfodol ar gyfer chwaraeon a hamdden awyr agored, mynwentydd, a defnydd arall o dir sy'n cynnal natur agored y Llain Las neu'r lletem las ac nad yw'n gwrthdaro â'r diben o gynnwys tir ynddo;
- ehangu neu addasu cyfyngedig ar anheddau cyfredol neu ddisodli cyfyngedig; neu
- arallgyfeirio ar raddfa fach ar safleoedd fferm pan gynhelir hyn fel rhan o fusnes y fferm.

Gall mathau eraill o ddatblygiad fod yn briodol ar yr amod eu bod yn cadw ei natur agored ac nad ydynt yn gwrthdaro â'r dibenion o gynnwys tir ynddo. Dyma nhw:

- echdynnu mwynau.
- cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel.
- gweithrediadau peirianneg; a
- seilwaith trafnidiaeth lleol.

Lle cynigir safleoedd o fewn dynodiad lletem las bydd y Cyngor yn ystyried y cynnig mewn perthynas â'r ffactorau a ganlyn-

- A yw'r defnydd arfaethedig yn gyson â'r eithriadau a nodir yn y polisi cenedlaethol?
- A fydd y cynnig yn niweidio natur agored y tir?
- A fydd y cynnig yn effeithio ar leoliad yr ardal adeiledig?
- A fydd y cynnig yn creu mwy o gyfuno aneddiadau?
- A fydd y cynnig yn effeithio ar gysylltedd bioamrywiaeth neu'n golygu colli cyfleoedd am seilwaith gwyrdd.

Os byddai'r cynnig yn effeithio ar un neu fwy o'r meini prawf, bydd y safle yn derbyn sgôr coch.

### 8.3.9. Ardal Tirwedd Arbennig a Dynodiadau Arfordir Treftadaeth Morganwg *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac Arfordir Treftadaeth Morganwg | **Gwyrdd** | Nid yw'r safle wedi ei leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig/ ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg |
| | **Ambr** | Mae'r safle wedi ei leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig / ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gallai'r datblygiad achosi ychydig o newid o ran cymeriad, os o gwbl, ac ychydig o effaith neu ddim effaith o bwys ar gymeriad y dirwedd a'r amwynder gweledol. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Coch** | Mae'r safle o fewn Ardal Tirwedd Arbennig/ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac mae'r datblygiad yn debygol o achosi newid sylweddol o ran cymeriad ac/neu effeithiau andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd a'r amwynder gweledol. |

8.3.9.1. **Eglurhad:**

Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac ar Arfordir Treftadaeth Morganwg roi ystyriaeth lawn i effaith y cynnig ar y dynodiad, drwy gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol. Bydd yn rhaid i'r asesiad ystyried y safle a'i berthynas â'r dynodiad ac i ba raddau y mae'n dderbyniol o ran graddfa ac amlygrwydd. Bydd y Cyngor hefyd yn cynnal asesiad o safleoedd yn rhan o'r Arfarniad Safle Creu Lleoedd (Adran 5 isod), a bydd hynny'n galluogi'r Cyngor i ddileu safleoedd os yw'r effeithiau'n sylweddol.

### 8.3.10. Gorchmynion Cadw Coed, Perthi a Choetiroedd *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Gorchmynion Cadw Coed Perthi a Choetiroedd. | **Gwyrdd** | Nid oes unrhyw Orchymyn Cadw Coed yn bresennol ar y safle, ac ni fyddai'r cynigion yn achosi unrhyw golled sylweddol o ran coed |
| | **Ambr** | Mae Gorchmynion Cadw Coed yn bresennol ar y safle, ond ni fyddai'r cynigion yn achosi unrhyw golled sylweddol o ran coed, a gellir cynllunio'r safle mewn modd sy'n diogelu'r coed. |
| | **Coch** | Mae Gorchymyn Cadw Coed yn bresennol ar y safle a byddai'n golygu colled sylweddol o ran coed neu'n gosod cyfyngiadau ar y datblygiad a fyddai'n effeithio ar y datblygiad. |

8.3.10.1. **Eglurhad:**

Er nad yw presenoldeb coeden warchodedig ar safle o reidrwydd yn cyfyngu ar ddatblygiad, dylid osgoi colli coed gwarchodedig i raddau sylweddol, a dylai cynllun y safle geisio diogelu coed a pherthi aeddfed presennol. Dylid ystyried y coed sy'n bresennol ar y safle wrth greu'r cynllun a phennu dwyseddau'r safle, a'r mynediad iddo. Wrth asesu'r effaith ar Orchmynion Cadw Coed, bydd y Cyngor yn ystyried y graddau y bydd y datblygiad yn arwain at golli coed yn unol â matrics y meini prawf.

### 8.3.11. Tir Halogedig *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Halogiad | **Gwyrdd** | Nid yw'r safle wedi'i halogi |
| | **Ambr** | Mae'r safle cyfan, neu ran ohono, wedi'i halogi ond darparwyd tystiolaeth i ddangos y byddai gwaith adfer yn bosibl ac yn ddichonadwy. |
| | **Coch** | Mae'r halogiad yn gyfyngiad sylweddol, a byddai'n anodd ymdrin â hynny/annhebygol o fod yn ddichonadwy neu ni ddarparwyd tystiolaeth ddigonol i ddangos sut y gellir adfer y tir. |

8.3.11.1. **Eglurhad:**

Os bydd tir wedi'i halogi, ni fydd hynny o reidrwydd yn achosi i safle fod yn anaddas i'w ddatblygu, gallai'r gost a'r amser ychwanegol i adfer yr halogiad effeithio ar hyfywedd a chyflawnadwyedd safle. Gan hynny, bydd safleoedd a allai fod wedi'u halogi yn derbyn sgôr negyddol oni ddarperir tystiolaeth i ddangos y gellir cyflawni gwaith adfer heb i hynny amharu ar hyfywedd y safle.

Wrth bennu a yw safle wedi'i halogi, ymgynghorir â Thîm Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor i ganfod lle gallai defnydd blaenorol / hanesyddol greu goblygiadau o ran datblygu yn y dyfodol.  Wrth asesu safleoedd, gallai achosion godi lle bo'n ddymunol dyrannu safle halogedig i'w ddatblygu, er mwyn iddo gael ei adfer. Mae asesiad tîm Iechyd yr Amgylchedd yn debygol o greu mwy o eglurder yn yr amgylchiadau hynny.

Ar gyfer safleoedd sy'n cynnwys hen safleoedd tirlenwi a nodir gan CNC, mae'n rhaid dangos sut y byddai'r safle a ddyrennir yn ystyried y materion halogi hyn drwy ddarparu tystiolaeth ychwanegol sy'n dangos y byddai gwaith adfer yn bosibl.

### 8.3.12. Amwynder a chydnawsedd â defnyddiau cyfagos *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Effaith ar Amwynder - defnyddiau cyfagos | **Gwyrdd** | Dim effaith ar amwynder yn sgil llygredd sŵn, arogl, golau neu lwch/mae'r defnydd a gynigir yn gydnaws â defnyddiau presennol **neu m**ae'r datblygiad a gynigir yn cymryd lle defnydd presennol sy'n cael effaith negyddol ar amwynder. |
| | **Ambr** | Gellir lliniaru ffynonellau llygredd sŵn, arogl, golau ac/neu lwch posibl a nodwyd / byddai'r cynnig yn gydnaws â defnyddiau cyfagos o ddefnyddio mesurau lliniaru. |
| | **Coch** | Mae sŵn, o un neu fwy o ffynonellau, yn gyfyngiad sylweddol ar ddatblygiad ac mae'n annhebygol y bydd modd gweithredu mesurau lliniaru priodol/byddai'r cynnig yn anghydnaws â defnyddiau cyfagos er gwaethaf unrhyw fesurau lliniaru posibl. |

#### 8.3.12.1. **Eglurhad:**

Drwy'r asesiadau safle, ystyrir a yw safle datblygu a gynigir yn agos at unrhyw ddefnydd(iau) presennol a fyddai'n achosi niwsans neu'n effeithio ar amwynder. Dyma rai mathau o ddefnyddiau a allai achosi niwsans neu effaith ar amwynder:

- Prif ffyrdd a rheilffordd
- Cyfleusterau gwastraff (gan gynnwys cyfleusterau trosglwyddo ac ailgylchu)
- Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG)
- Rhai defnyddiau diwydiannol a Safleoedd Cyflogaeth

Gallai'r defnyddiau uchod greu llygredd, gan gynnwys sŵn, aer, golau ac arogl. Gall defnyddiau diwydiannol hefyd achosi dirgryniad, a mathau penodol o lygredd aer, gan gynnwys llwch, grut, mygdarth, mwg, a lludw.

Yn ogystal â hynny, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried cydnawsedd y cynnig â defnyddiau cyfagos, lle bônt yn bresennol ac a geir unrhyw effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr/ddefnyddiau cyfagos yn sgil y cynnig.

### 8.3.13. Cyfyngiadau Ffisegol Presennol ar y Safle *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Cyfyngiadau Ffisegol Presennol ar y Safle | **Gwyrdd** | Mae'r safle'n rhydd rhag cyfyngiadau. |
| | **Ambr** | Ceir cyfyngiadau ar y safle, ond mae hynny'n annhebygol o rwystro datblygu. |
| | **Coch** | Ceir cyfyngiadau sylweddol ar y safle sy'n debygol o rwystro datblygu neu mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynghori na ddylid ei ddatblygu. |

#### 8.3.13.1. **Eglurhad:**

Ceir amryw o gyfyngiadau ffisegol ar y safle yn gysylltiedig â seilwaith, a allai gyfyngu ar argaeledd safle neu ei atal rhag cael ei ddatblygu'n llwyr. Nid yw'r asesiad hwn yn ystyried topograffi nac adeiladau presennol. Mae'n canolbwyntio ar gyfyngiadau seilwaith yn unig.

Mae'r mathau o seilwaith a ystyrir yn y cwestiwn asesu hwn yn eitemau a gynhelir neu a weithredir gan asiantaethau trydydd parti ac maent wedi'u rhannu'n gyfyngiadau mawr a mân gyfyngiadau.

- Mae mân gyfyngiadau'n cynnwys llinellau ffôn neu bŵer graddfa fach y gellid eu lliniaru'n rhwydd.
- Mae cyfyngiadau mawr yn cynnwys peilonau trydan mawr, a pharthau canol neu allanol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Os yw safle'n gyfan gwbl oddi mewn i Barth Mewnol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bydd wedi'i eithrio rhag defnydd preswyl - ond ni fydd wedi'i eithrio rhag defnyddiau eraill heblaw am dai, fel cyflogaeth a manwerthu. Mae methodoleg cynllunio defnydd tir yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynghori yn erbyn datblygiad preswyl mewn Parthau Mewnol, ond yn nodi y gallai defnyddiau cyflogaeth fod yn dderbyniol.

### 8.3.14. Topograffi a Chyflwr y Safle *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Topograffi a Chyflwr y Safle | **Gwyrdd** | Mae'r safle'n rhydd rhag cyfyngiadau |
| | **Ambr** | Ceir cyfyngiadau ffisegol ar y safle, ond mae hynny'n annhebygol o rwystro datblygu. |
| | **Coch** | Ceir cyfyngiadau ffisegol sylweddol ar y safle sy'n debygol o effeithio ar ddatblygiad y safle neu'r gallu i'w gyflawni. |

#### 8.3.14.1. **Eglurhad:**

Yn yr un modd â nodweddion ffisegol y safle, gallai cyflwr y tir ei hun achosi problemau wrth ddatblygu. Er enghraifft, gallai topograffi a sefydlogrwydd y safle, neu bresenoldeb rhywogaethau ymledol effeithio ar ddatblygiad neu gynllun y safle. Dylai hyrwyddwyr y safle ddarparu manylion am y cyfyngiadau hynny, ac am unrhyw fesurau lliniaru a gynigir i'w goresgyn.

| **Canlyniad yr Asesiad o Gyfyngiadau Amgylcheddol a Ffisegol ar y Safle** | |
|---|---|
| Dim cyfyngiadau corfforol na chyfyngiadau eraill | ☐ |

| | |
|---|---|
| Nodwyd cyfyngiadau y mae angen camau lliniaru/ymyrraeth polisi ar eu cyfer - Angen ystyriaeth bellach | ☐ |
| Cyfyngiad mawr ar ddatblygiad, neu'n groes i bolisi cenedlaethol, neu heb ddarparu digon o wybodaeth. | ☐ |

## 8.4. Lleoliad y Safle: Hygyrchedd ac Agosrwydd at Wasanaethau a Chyfleusterau

### 8.4.1. Lleoliad – Cynigion Preswyl *(meini prawf cam 1)*

| | | |
|---|---|---|
| Yr Hierarchaeth Aneddiadau | **Gwyrdd** | Mae'r safle o fewn ffiniau anheddiad presennol Anheddiad Allweddol y Barri, Canolfannau Gwasanaeth, Prif Aneddiadau neu Fân Bentrefi Gwledig, neu'n cydffinio â'r rheiny. |
| | **Ambr** | Mae'r safle oddi mewn i bentrefan neu bentref bach gwledig nad yw wedi'i nodi yn yr hierarchaeth aneddiadau presennol (gweler y rhestr aneddiadau yn yr astudiaeth gefndirol o Aneddiadau Cynaliadwy), neu'n cydffinio â'r rheiny, gan ffafrio safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy yn y lle cyntaf. |
| | **Coch** | Mae'r safle yng nghefn gwlad (heb fod yn berthnasol i safleoedd sipsiwn a theithwyr) |

#### 8.4.1.1. Eglurhad:

Mae'r CDLl mabwysiedig presennol yn cynnwys "hierarchaeth aneddiadau", a gaiff ei hadolygu'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLlN. Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn rhestru aneddiadau yn eu trefn, gan ystyried maint eu poblogaeth a'u hystod o wasanaethau a chyfleusterau.

Gallai pob anheddiad o bosibl gyfrannu at fodloni anghenion twf Bro Morgannwg yn y dyfodol a gallent fod yn rhan o Strategaeth a Ffefrir y Cyngor.  Yn gyffredinol, ar ben uchaf y rhestr sy'n darparu'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf, gan eu bod yn cynnig mynediad gwell at wasanaethau a chyfleusterau. I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y bydd mynediad datblygiadau mewn ardaloedd o gefn gwlad agored at wasanaethau a chyfleusterau yn waelach, ac mai'r ardaloedd hynny sydd a'r potensial mwyaf o achosi niweidio'r amgylchedd (i'w archwilio drwy feini prawf asesu eraill). Fodd bynnag, bydd y Cyngor hefyd yn rhoi blaenoriaeth i safleoedd eithriedig gwledig sy'n cynnig 100% o dai fforddiadwy o fewn aneddiadau nad ydynt ar hyn o bryd wedi'u cynnwys yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl, lle dangosir tystiolaeth y byddai'r safle'n bodloni angen penodol na ellir ei fodloni ar hyn o bryd yn aneddiadau presennol yr hierarchaeth.

Wrth ddewis safleoedd, bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio dull dilyniannol o nodi safleoedd i'w datblygu, gan ffafrio safleoedd tir llwyd o fewn neu'n cydffinio ag aneddiadau presennol, ac wedyn safleoedd maes glas cynaliadwy ar ymylon aneddiadau.

### 8.4.2. Lleoliad – Cynigion Cyflogaeth a Manwerthu *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad - Defnydd Cyflogaeth a Manwerthu | **Gwyrdd** | Mae'r safle o fewn, neu'n cydffinio â, safleoedd cyflogaeth presennol neu ganolfan fanwerthu drefol, leol neu gymdogaethol. |
| | **Ambr** | Mae'r safle y tu allan i safle cyflogaeth presennol neu ar ymyl canolfan (manwerthu). |
| | **Coch** | Mae'r safle mewn ardal o gefn gwlad agored neu y tu allan i'r dref, ac yn groes i bolisi cenedlaethol. |

8.4.2.1. **Eglurhad**

Bydd y Cyngor yn ystyried cynigion am ddefnyddiau cyflogaeth a manwerthu yn unol â'r prawf dilyniannol a nodir mewn polisi cenedlaethol. Ar y cyfan, bydd cynigion cyflogaeth yn cael eu ffafrio o fewn, neu'n cydffinio â, safleoedd cyflogaeth presennol a nodir o fewn y CDLl presennol, yn ogystal â safleoedd strategol bwysig o bwysigrwydd lleol neu ranbarthol, gan anelu i ddenu buddsoddiad mewnol neu ddiwydiannau penodol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i adolygiad y Cyngor o anghenion cyflogaeth a gynhelir i gefnogi'r CDLlN.

Mewn perthynas â chynigion manwerthu newydd, bydd safleoedd yn cael eu hasesu yn erbyn y prawf dilyniannol ar gyfer manwerthu, fel y nodir yn y polisi cenedlaethol - mae hyn yn cynnwys gofyniad penodol i leoli datblygiadau manwerthu yng nghanol trefi yn bennaf, ac yn berthnasol i bob defnydd arall sy'n cydweddu â chanolfannau manwerthu a masnachol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), bwyd a diod (A3), swyddfeydd (B1), gwestai (C1), a hamdden (D2).

Bydd yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd manwerthu sy'n cynnwys 2,500 metr sgwâr neu fwy o ofod llawr a gynigir ar ymylon neu'r tu allan i ganolfannau manwerthu a masnachol gyflwyno asesiad effaith manwerthu. Wrth benderfynu a yw safleoedd o'r fath yn briodol dylai'r Cyngor hefyd ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf am fanwerthu i bennu'r angen am ofod llawr manwerthu ychwanegol dros gyfnod y CDLlN ac, yn dibynnu ar y dystiolaeth, gall ei gwneud yn ofynnol i gynigion llai na 2,500 metr sgwâr gynnal asesiad effaith manwerthu.

### 8.4.3. Mynediad at Wasanaethau a Chyfleusterau *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Mynediad at Wasanaethau a Chyfleusterau | **Gwyrdd** | O fewn 800m i'r safle (10 munud ar droed) |
| | **Ambr** | O fewn 1200m i'r safle (15 munud ar droed) |
| | **Coch** | Mwy na 1200m (15+ munud ar droed) |

8.4.3.1. **Eglurhad:**

Mae polisi cenedlaethol yn tynnu sylw at bwysigrwydd creu lleoedd cynaliadwy gan sicrhau bod gan ddatblygiadau newydd fynediad at ystod o wasanaethau/cyfleusterau drwy amrywiaeth o ddulliau teithio, yn enwedig drwy gerdded a beicio. O ganlyniad i hynny, mae'r pellter cymharol at gyfleusterau presennol, trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys lefel a mynychder y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn ffactor pwysig wrth benderfynu ynghylch addasrwydd safle.

Fodd bynnag, mae polisi cenedlaethol hefyd yn cydnabod bod llai o gyfleoedd mewn ardaloedd gwledig i leihau'r defnydd o geir a cherdded, beicio a defnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus o gymharu ag ardaloedd gwledig (PCC Rhifyn 11, gweler paragraff 3.39). O ganlyniad i hynny, mewn ardaloedd gwledig rhoddir ystyriaeth i Adolygiad o Aneddiadau Cynaliadwy'r Cyngor, a rôl, swyddogaeth a pherthynas aneddiadau yn rhan o'r broses asesu a dethol safleoedd.

Ar gyfer cynigion preswyl yn unig, bydd yr asesiad i ddechrau'n archwilio lleoliad y safle a gynigir o ran a yw o fewn anheddiad, yn cydffinio ag anheddiad, neu'r tu allan i anheddiad, ac yn ail pa mor rwydd yw cael mynediad ar droed neu ar feic i wasanaethau allweddol a restrir isod. Yn achos cynigion manwerthu, cyflogaeth a hamdden, bydd safleoedd yn cael eu rhannu i gategorïau yn dibynnu a ydynt yng nghanol y dref, ar ymylon canol y dref, y tu allan i ganol y dref, neu'r tu allan i'r dref (y prawf dilyniannol).

Wrth ystyried agosrwydd safle at wasanaethau a chyfleusterau, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r fethodoleg ar gyfer asesu hygyrchedd a ddefnyddiwyd yn wreiddiol ar gyfer ei Adolygiad Arfarnu Aneddiadau Cynaliadwy (2016) ac a seiliwyd ar ganllawiau yn 'Sustainable Settlements: A Guide for Planners, Designers and Developers' a luniwyd gan Brifysgol Gorllewin Lloegr a'r Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol.

Bydd argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau hefyd yn cael eu hadolygu yn rhan o'r adolygiad a'r fethodoleg hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy. Bydd asesiadau safle yn ystyried y pellteroedd at y gwasanaethau allweddol canlynol[2]:

| Cyfleuster | Safonau Hygyrchedd Rhesymol (Uchafswm) |
|---|---|
| Ysgol Gynradd | 600m |
| Ysgol Uwchradd | 2000m |
| Gwasanaethau Iechyd | 1000m |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | 800m |
| Caeau Chwaraeon/Caeau Chwarae/Canolfannau Hamdden | 1000m |
| Siopau manwerthu sy'n darparu nwyddau sylfaenol i fodloni anghenion o ddydd i ddydd (canolfannau trefol, lleol a chymdogaethol) | 1000m-2000m |
| Cyflogaeth - Pellter at safleoedd/dyraniadau cyflogaeth lleol presennol | Hyd at 5000m |

Cydnabyddir nad yw'r rhestr hon o wasanaethau/cyfleusterau yn hollgynhwysol, ond ystyrir ei bod yn cynrychioli ystod resymol o gyrchfannau nodweddiadol a fyddai'n creu cymdogaeth cymharol gynaliadwy, a gallai gael effaith gadarnhaol o ran lleihau'r ddibyniaeth ar deithio mewn car, yn unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd a chreu lleoedd a nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol.

### 8.4.4. Mynediad i Fannau Agored Gwyrdd / Seilwaith Gwyrdd *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Mynediad at Rwydwaith Seilwaith Gwyrdd / Mannau Agored Gwyrdd | **Gwyrdd** | Mae'r safle o fewn 5 i 10 munud o bellter cerdded at fan gwyrdd defnyddadwy, man agored cyhoeddus, neu dir sy'n cynnig mynediad agored. |
| | **Ambr** | Mae'r safle rhwng 10 a 20 munud o bellter cerdded at fan gwyrdd defnyddadwy, man agored cyhoeddus, neu dir sy'n cynnig mynediad agored. |
| | **Coch** | Mae'r safle dros 20 munud o bellter cerdded at unrhyw fan gwyrdd defnyddadwy, man agored cyhoeddus, neu dir sy'n cynnig |

[2]Addaswyd o Sustainable Settlements: A Guide for Planners, Designers and Developers (Barton, Davis and Guise, 1995) a Shaping Neighbourhoods - for local health and global sustainability (2010)

| | | |
|---|---|---|
| | | mynediad agored. |

#### 8.4.4.1. Eglurhad:

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlygu amryw o fanteision yn gysylltiedig â seilwaith gwyrdd, fel dull effeithiol o wella iechyd a llesiant, drwy gysylltu anheddau, mannau gwaith a chyfleusterau cymunedol, a darparu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel. Nid oes safon wedi'i phennu mewn polisi cynllunio lleol na chenedlaethol ar gyfer mynediad at fannau gwyrdd, ond mae sawl astudiaeth wedi' cael ei chynnal yn sail ar gyfer y meini prawf yn gysylltiedig â hygyrchedd mannau gwyrdd yn rhan o'r Broses Safleoedd Ymgeisiol. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd dylai trigolion trefol fod o fewn 5 munud o bellter cerdded at fannau gwyrdd o leiaf 0.5-1ha, tra bo Meysydd Chwarae Cymru o'r farn bod pellter cerdded cyffredinol o 10 munud yn bellter priodol ym mhob ardal. Oherwydd y gwahaniaethau rhwng y pellteroedd a ffefrir at fannau gwyrdd, ystyrir y byddai ystod o amseroedd ar gyfer pob categori yn ymagwedd resymol er mwyn asesu hygyrchedd mannau gwyrdd.

Ar y cyfan, gellir defnyddio'r pellteroedd canlynol i gyfrifo'r amser cerdded cyfartalog o ddyraniad at y man agored agosaf:

- 400m = 5 munud ar droed
- 800m = 10 munud ar droed
- 1,200m = 15 munud ar droed
- 1,600m = 20 munud ar droed

Wrth gymhwyso'r meincnodau hyn, dylid cydnabod na chaiff nodweddion lleol na rhwystrau i gerddwyr eu hystyried. Fodd bynnag, yn y cam lefel uchel hwn o'r broses, ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso meincnodau bras, ac ystyried manylion ychwanegol wrth i'r safle fynd rhagddo drwy'r broses asesu safleoedd ymgeisiol.

Os nad yw safleoedd o fewn pellter priodol at fannau gwyrdd, disgwylir y byddai angen cynnwys nodweddion priodol o fewn y safle er mwyn ei ddyrannu yn y CDLlN. Gallai hynny felly effeithio ar ddwysedd y safle ac ar ystyriaethau hyfywedd. Disgwylir felly i gynigwyr gynnwys rhagdybiaethau ychwanegol yn eu tystiolaeth o ddwysedd a hyfywedd, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig dyraniad realistig. Mae hyn yn golygu na fydd safle yn cael ei ddiystyru ar unwaith os yw yn y categori ambr neu goch, ond y bydd disgwyl iddo gynnwys gwelliannau o ran mynediad at fan gwyrdd drwy gynnig darpariaeth ar-safle.

Mae ansawdd mannau gwyrdd defnyddadwy hefyd yn ystyriaeth bwysig, er bod hyn yn anodd ei fesur oddi mewn i baramedrau'r Ffurflen Safle Ymgeisiol. Mae rhagor o wybodaeth am leoliad ac ansawdd mannau gwyrdd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Seilwaith Gwyrdd y Cyngor. Defnyddir y ddogfen hon yn sail ar gyfer asesu'r maen prawf hwn, er enghraifft lle bydd safle yn y categori ambr, ond bod y man gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel, bydd y safle hwnnw ar lefel uwch na safle arall yn y categori ambr â mynediad at fan gwyrdd o ansawdd is.

### 8.4.5. Trafnidiaeth Gynaliadwy – Trafnidiaeth Gyhoeddus *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth Gynaliadwy Trafnidiaeth Gyhoeddus | **Gwyrdd** | Gwasanaethir y safle gan gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus o fewn 800m o bellter cerdded i'r safle, ac mae mynychder y ddarpariaeth yn dderbyniol, sef 1 gwasanaeth fesul awr o leiaf o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, yn ogystal â gwasanaeth ar y Sul) |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ambr** | Mae'r safle o faint a allai gynnal cysylltiad trafnidiaeth gyhoeddus masnachol o fewn 800m o bellter cerdded i'r safle (mynychder o 1 gwasanaeth yr awr o leiaf o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, yn ogystal â gwasanaeth ar y Sul) |
| | **Coch** | Ni wasanaethir y safle gan gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus o fewn 800m o bellter cerdded i'r safle, ac ystyrir nad yw'n gallu cynnal gwasanaeth mynych oherwydd ei faint. |

8.4.5.1. **Eglurhad:**

Wrth asesu hygyrchedd safle, rhoddir ystyriaeth i ddechrau i'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sydd eisoes ar gael, a'u hagosrwydd at y safle. Mae'r pellter o 800m yn gyson â'r safon a fabwysiadwyd yn 3.2 i adlewyrchu'r uchafswm pellter cerdded derbyniol er mwyn cael mynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r mynychder gwasanaeth a ddefnyddir o fewn yr asesiad hefyd yn adlewyrchu'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn Arfarniad y Cyngor o Aneddiadau Cynaliadwy.

Os nad oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd, neu os yw'r ddarpariaeth bresennol dros 800m o'r safle, rhoddir ystyriaeth i'r potensial i wella darpariaeth y gwasanaeth, a bydd hynny'n cynnwys ymgynghori â Thîm Trafnidiaeth Gyhoeddus y Cyngor i bennu a allai'r cynnig gynnal gwasanaeth dichonadwy. Bydd safleoedd heb wasanaethau presennol neu y tybir eu bod yn annhebygol o gynnal gwasanaeth newydd yn derbyn sgôr negyddol.

### 8.4.6. Trafnidiaeth Gynaliadwy - Teithio Llesol *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Teithio Llesol, Cerdded a Beicio | **Gwyrdd** | Mae'r safle wedi'i gysylltu â llwybr teithio llesol presennol neu arfaethedig, neu o fewn 800m at lwybr teithio llesol presennol/arfaethedig. |
| | **Ambr** | Nid yw'r safle wedi'i gysylltu â llwybr teithio llesol, ond mae'r safle'n cynnig cyfle i greu cysylltiadau teithio llesol. |
| | **Coch** | Nid yw'r safle wedi'i gysylltu â llwybr teithio llesol, a phrin yw'r cyfle, os o gwbl, i greu cyfleoedd teithio llesol. |

8.4.6.1. **Eglurhad:**

Bydd y Cyngor yn ystyried cyfleoedd i gerdded a beicio o fewn yr awdurdod a'r potensial i gysylltu'r safle â Rhwydwaith Teithio Llesol presennol y Cyngor, a llwybrau ychwanegol arfaethedig a nodwyd yn Rhwydwaith Rhyngweithiol Bro Morgannwg. Ym mhob achos, bydd argaeledd/gallu cerddwyr a beicwyr i gyrraedd y Rhwydwaith Teithio Llesol drwy lwybrau troed / beicio mabwysiedig yn cael ei ystyried yn erbyn pellter o 800 metr o'r safle, a'i sgorio'n unol â meini prawf y matrics.

### 8.4.7. Cyfleusterau Cymunedol *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Cyfleusterau Cymunedol | **Gwyrdd** | Ni fydd y safle yn arwain at golli cyfleuster cymunedol presennol. |
| | **Ambr** | Byddai'r cynnig yn arwain at golli cyfleuster cymunedol nad oes ei angen mwyach neu y darperir cyfleuster arall yn ei le yn rhan o'r cynigion |

| | | |
|---|---|---|
| | **Coch** | Byddai'r cynnig yn arwain at golli cyfleuster cymunedol, a hynny'n annerbyniol. |

8.4.7.1. **Eglurhad:**

Mae'r cyfleusterau cymunedol yn eang eu cwmpas ac yn cynnwys cyfleusterau fel canolfannau iechyd, meddygfeydd, cyfleusterau addysgol, cyfleusterau cymdeithasol fel neuaddau cymuned, tafarndai, llyfrgelloedd, a mannau addoli. Gall argaeledd a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol drwy gerdded neu feicio ac ar drafnidiaeth gyhoeddus gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant[3] , drwy gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chyfleoedd am gydlyniant cymunedol.

Ystyriaeth allweddol felly wrth asesu'r safle fydd a fyddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleusterau cymunedol drwy ddiogelu neu wella cyfleusterau presennol, neu gynnig darpariaeth newydd. I'r gwrthwyneb, bydd safleoedd sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol presennol, neu nad ydynt yn gwella'r cyfleusterau hynny, yn cael eu hystyried yn llai ffafriol, fel yr adlewyrchir yn y meini prawf asesu.

| **Canlyniad yr Asesiad Lleoliad a Hygyrchedd** | |
|---|---|
| Mae'r safle mewn anheddiad sy'n cynnig mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau, sy'n hygyrch drwy amryw o ddulliau teithio | ☐ (Gwyrdd) |
| Mae'r safle mewn anheddiad sy'n cynnwys rhai gwasanaethau, a gall gefnogi cyfle i wella mynediad, drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth presennol - Angen ystyriaeth bellach | ☐ (Ambr) |
| Mae'r safle mewn lleoliad ynysig a byddai'n arwain at lefel uchel o ddibyniaeth ar gar/yn groes i bolisi cenedlaethol. | ☐ (Coch) |

## 8.5. Argaeledd Seilwaith

### 8.5.1. Cysylltedd a Chapasiti *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Cysylltiad cyfleustodau Dŵr a Charthffosiaeth | **Gwyrdd** | Cysylltiadau addas yn bodoli eisoes, neu dystiolaeth o hynny |
| | **Ambr** | Byddai'r cyfleustodau presennol neu arfaethedig yn addas yn amodol ar welliannau lleol, heb amharu ar hyfywedd y datblygiad na'r/neu'r amserlen gyflawni. |
| | **Coch** | Mae gwasanaethau presennol neu arfaethedig yn cyfyngu'n sylweddol ar hyfywedd y datblygiad ac/neu amserlenni cyflawni. |

8.5.1.1. **Eglurhad:**

Asesir safleoedd yn erbyn argaeledd cysylltiadau dŵr i'r safle, yn ogystal â'r dull o waredu carthion o'r safle. Cynhelir ymgynghoriad â DC i ganfod a oes digon o gapasiti yn y gwaith trin dŵr gwastraff, a sut mae'n cyd-fynd â Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Dŵr Cymru.

Os canfyddir bod prinder capasiti yn sgil ymgynghori, neu fod y safle ymhell oddi wrth gyswllt posibl, gallai hynny amharu ar gyflawnadwyedd/hyfywedd safle, os bydd angen gwaith uwchraddio neu dalu costau sylweddol. Bydd y Cyngor felly'n ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr

---

[3] Town and Country Planning Association (TCPA) Practical Guides**,** Guide 8: Creating health-promoting environments. 2017. https://www.tcpa.org.uk/tcpa-practical-guides-guide-8-health

safleoedd gynnal asesiad manwl o hyfywedd y safle, er mwyn canfod beth fyddai effaith y gost ychwanegol honno ar gostau datblygu a'r amserlen gyflawni.

### 8.5.2. Seilwaith Arall *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Cysylltiadau Seilwaith Eraill - Trydan, Nwy, Band Eang a Ffôn | **Gwyrdd** | Cysylltiadau addas yn bodoli eisoes, neu dystiolaeth o hynny |
| | **Ambr** | Byddai'r cyfleustodau presennol neu arfaethedig yn addas yn amodol ar welliannau lleol |
| | **Coch** | Mae'r cyfleustodau presennol neu arfaethedig yn cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygu |

#### 8.5.2.1. **Eglurhad:**

Rhoddir ystyriaeth i effaith gofynion seilwaith eraill ar ddatblygiad o ran eu cost. Er na fyddai safle'n cael ei ddiystyru ar sail hyn yn unig, rhoddir ystyriaeth i hyfywedd y datblygiad.

### 8.5.3. Mynediad at Briffyrdd *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Mynediad at y Briffordd - Y Rhwydwaith Lleol a Strategol | **Gwyrdd** | Dim cyfyngiadau ar fynediad at y briffordd. Gall y safle gynnig mynediad diogel o weithredu mân fesurau lliniaru yn unig. |
| | **mbr** | Mân gyfyngiadau ar fynediad at y briffyrdd y gellir eu lliniaru'n rhesymol |
| | **Coch** | Cyfyngiadau mawr o ran priffyrdd - Problemau diogelwch na ellir eu goresgyn a/neu fod costau mesurau lliniaru'n debygol o wneud y cynllun yn annichonadwy. |

#### 8.5.3.1. **Eglurhad:**

Bydd Swyddog Priffyrdd y Cyngor yn cynnal asesiad i ganfod a ellir mynd a dod o'r safle'n ddiogel. Os yw mynediad presennol y safle'n dderbyniol ar gyfer y defnydd a gynigir, bydd yn derbyn sgôr gadarnhaol. I gefnogi'r broses asesu dylai cynigwyr safle nodi lleoliad y mynediad i'r safle ar y cynlluniau a gyflwynir.

Os oes mynedfa bresennol sy'n is na'r safon y gellir ei gwella i wasanaethu'r datblygiad a gynigir, neu os y gellir creu mynedfa newydd ddiogel i'r safle, bydd yn derbyn sgôr ambr a dylid darparu manylion pellach lle bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Os cynigir mynedfa anniogel i'r briffordd, neu os na ellir uwchraddio'r fynedfa bresennol yn unol â safonau'r Cyngor, neu os ystyrir bod y gost o ddarparu dull diogel o fynd a dod o'r safle yn effeithio ar hyfywedd y safle, bydd y safle'n cael ei eithrio rhag ystyriaeth bellach.

| Canlyniad yr Asesiad o Argaeledd Seilwaith | |
|---|---|
| Y capasiti sydd ar gael o ran seilwaith | ☐ |
| Nodwyd prinder capasiti y gellid gweithredu mesurau lliniaru i'w ddatrys - dylid cynnal ymgynghoriad mewnol/allanol i wirio pa fesurau sydd eu hangen | ☐ |
| Cyfyngiadau mawr wedi'u nodi o ran seilwaith | ☐ |

## 8.6. Newid Hinsawdd, Creu Lleoedd a Llesiant

### 8.6.1. Newid Hinsawdd *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Newid Hinsawdd | **Gwyrdd** | Bydd y datblygiad yn ddi-garbon |
| | **Ambr** | Bydd y datblygiad yn ymgorffori ffynonellau ynni ac/neu fesurau lleihau carbon yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol mewn Rheoliadau Adeiladu. |
| | **Coch** | Nid yw'r datblygiad yn cynnig unrhyw fesurau carbon isel/dim carbon yn ychwanegol at y Rheoliadau Adeiladu gorfodol |

#### 8.6.1.1. **Eglurhad:**

Yn PCC nodir "Dylai'r system gynllunio gefnogi datblygiad newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithiol iawn, yn cefnogi datgarboneiddio, yn mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd ac yn addasu i effeithiau yr argyfwng hinsawdd nawr ac i'r dyfodol trwy ymgorffori mesurau lliniaru ac addasu effeithiol." (gweler paragraff 5.8.1)

Yn ogystal â hynny, mae PCC (paragraff 5.8.7) yn amlygu'r rhan y mae'r diwydiant datblygu yn ei chwarae o ran y newid hinsawdd, gan nodi "Dylai datblygwyr ystyried gofynion y dyfodol o ran lleihau cyfanswm y carbon mewn adeiladau newydd, wrth ddylunio eu cynlluniau, o ganlyniad i newidiadau i Reoliadau Adeiladu Cymru; bydd ystyried unrhyw newidiadau i'r dyfodol yn sicrhau bod elfennau dylunio unrhyw ofynion yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl". Yn unol â hynny, bydd yn rhaid i hyrwyddwyr safleoedd sicrhau bod y graddfeydd amser a ragwelir ganddynt ar gyfer datblygu safleoedd yn ystyriol o newidiadau yn y dyfodol i reoliadau adeiladu dros gyfnod y Cynllun, a bod hyn wedi'i adlewyrchu mewn arfarniadau o hyfywedd safleoedd.

Bydd y Cyngor yn ystyried sut mae cynnig datblygu o gymorth i symud tuag at ddyfodol di-garbon, yn seiliedig ar lefel y mesurau a ystyrir gan hyrwyddwyr safle yn erbyn y matrics meini prawf. Bydd cyfraniad safle o safbwynt y newid hinsawdd hefyd yn rhan o'r asesiad ACI.

### 8.6.2. Creu Lleoedd - Cymeriad a Lle *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Creu Lleoedd-Cymeriad a lle | **Gwyrdd** | Gallai datblygu'r safle ychwanegu at gymeriad yr ardal a gwneud cyfraniad cadarnhaol at egwyddorion cynaliadwyedd a chreu lleoedd cenedlaethol |
| | **Ambr** | Mae datblygu'r safle yn debygol o gael effaith niwtral / ddibwys ar y cymeriad lleol a'r naws am le (ar yr amod bod y datblygiad yn cynnig mesurau lliniaru ac/neu'n bodloni gofynion polisi penodol). |

| | | |
|---|---|---|
| | **Coch** | Mae'n debygol y bydd datblygu'r safle yn niweidio'r cymeriad lleol a'r naws am le (waeth pa fesurau lliniaru a gynigir ac/neu hyd yn oed os yw'n bodloni gofynion polisi penodol). |

8.6.2.1. **Eglurhad:**

Bydd y cyfraniad y gall safle ei wneud at greu lle yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis safleoedd yn y cam terfynol, a bydd hynny'n cael ei bennu drwy ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan hyrwyddwyr safle yng ngham cyflwyno'r safle ymgeisiol, a'r atebion a roddwyd yn Adran 7 y ffurflen gyflwyno, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan y Cyngor ac/neu dystiolaeth gefndir o'r CDLlN.

Bydd swyddogion Cynllunio'r Cyngor hefyd yn cynnal ymweliadau safle, gan roi sylw i faterion sy'n ymwneud â chymeriad lleol a nodau creu lleoedd cenedlaethol, a'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses asesu safleoedd. Fel rheol, cynhelir ymweliad â phob safle sy'n derbyn sgôr gadarnhaol yn erbyn y meini prawf asesu, ac a ystyrir yn rhydd rhag cyfyngiadau. Er mwyn osgoi ail-wneud gwaith, ni chynhelir ymweliad fel arfer â safleoedd a ddyrannwyd eisoes yn y CDLl, na safleoedd â chaniatâd cynllunio gweithredol - byddai'r safleoedd hynny eisoes wedi cael eu hasesu yn erbyn y maen prawf hwn. Fodd bynnag, bydd y safleoedd hynny'n cael eu hystyried yn erbyn gwybodaeth am gyflawnadwyedd a hyfywedd er mwyn canfod a ddylid symud y safle ymlaen i'r CDLlN.

Wrth benderfynu ynghylch priodoldeb cynigion, bydd ymweliadau'n cael eu llywio gan y diffiniad cenedlaethol o Greu Lleoedd, fel y'i nodir ar dudalen 14 yn PCC:

*Mae “creu lleoedd” yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a’r berthynas rhwng safle’r datblygiad a’i gyffiniau, hynny yn achos datblygiadau mawr sy’n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy’n cael eu creu mewn lle ehangach. “*

Yn unol â hynny, bydd swyddogion yn casglu tystiolaeth ac yn arfer barn broffesiynol ar y meini prawf canlynol:

**Meini prawf asesu - Cymeriad a Lle**

**Y cyd-destun lleol** i ba raddau y mae'r datblygiad yn cyd-fynd â lleoliad a chymeriad yr ardal:

- Cymeriad adeiladau lleol y cyffiniau
- Perthynas a chydnawsedd â'r ffurf adeiledig, y cynllun, y raddfa, y dwysedd, a'r mathau o adeiladau a geir eisoes
- Effaith weledol ar y dirwedd / y strydlun / yr amgylchedd hanesyddol
- Arwyddocâd y safle i'r ardal
- Dwysedd y cynnig o'i gymharu â datblygiadau sy'n bodoli eisoes

**Cysylltiadau-I** ba raddau y mae'r datblygiad wedi'i gysylltu â'r llwybrau mynediad o'i amgylch:

- Mynediad at y safle - symudiad cerbydau
- Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau cerdded/beicio
- Perthynas â mannau gwyrdd/glas presennol

**Hygyrchedd**- i ba raddau y mae'r safle wedi'i gysylltu â mannau agored a chyfleusterau cymunedol sy'n bodoli eisoes ac yn hygyrch i'r rheiny:

- A yw'r safle'n ymddangos yn hygyrch yn gyffredinol i bob defnyddiwr

- Cyfleoedd am welliannau i'r seilwaith gwyrdd/teithio llesol

Os ceir sawl safle o fewn anheddiad, bydd y rhai hynny sy'n derbyn sgoriau cyffredinol cymharol gadarnhaol yn erbyn y meini prawf wedi'u gosod yn uwch na'r rhai sy'n derbyn nifer anghymesur o sgoriau negyddol.

### 8.6.3. Iechyd a Llesiant *(meini prawf cam 2)*

| | | |
|---|---|---|
| Iechyd a Llesiant | **Gwyrdd** | Mae hyrwyddwr y safle wedi cyflwyno rhestr wirio iechyd a llesiant sy'n dangos sut y bydd y safle'n ymgorffori mesurau a fydd yn cyfrannu at wella iechyd a llesiant. |
| | **Ambr** | Amherthnasol |
| | **Coch** | Ni chyflwynwyd rhestr wirio iechyd a llesiant |

#### 8.6.3.1. **Eglurhad:**

Ym mharagraffau 3.19 i 3.24 PCC, Hyrwyddo Lleoedd Iachach, esbonnir sut y gall Awdurdodau Cynllunio Lleol gynorthwyo i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chreu lleoedd sy'n annog ffyrdd iach o fyw, gan sicrhau mynediad at fannau gwyrdd a chyfleusterau cymunedol, a hyrwyddo cerdded a beicio. Y mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod y broses gynllunio'n lleihau hyd yr eithaf unrhyw effaith negyddol bosibl ar iechyd corfforol a meddyliol yn sgil datblygiadau newydd, drwy warchod amwynder a lleihau amlygiad i lygredd sŵn ac aer.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at y cysylltiadau agos rhwng yr amgylchedd adeiledig a iechyd a llesiant ac yn rhoi canllawiau ar sut y gall datblygwyr, penseiri, dylunwyr tirwedd a pheirianwyr priffyrdd gyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol wrth ddylunio datblygiadau newydd. Mae'r canllawiau ar safleoedd ymgeisiol felly'n annog hyrwyddwyr safleoedd i gyflwyno'r rhestr wirio iechyd a llesiant (gweler y nodiadau canllaw) fel bo modd adnabod cyfleoedd iechyd a llesiant ar y cyfle cyntaf, yn gyson â'r ymagwedd a gynghorir yn PCC:

Dylid cynllunio'n hamgylcheddau adeileg a naturiol i hyrwyddo'n llesiant meddyliol a chorfforol. Y ffordd orau o wneud hynny yw trwy sicrhau cyfranogaeth a chydweithrediad pobl eraill i sicrhau bod problemau'n cael eu deall a'u rhwystro cyn gynted â phosib trwy eu rheoli'n effeithiol gyda'r rheini y bydd y datblygiad dan sylw yn effeithio arnynt neu sydd â budd ynddo. "(gweler tudalen 17).

Bydd y CDLlN yn destun asesiad effaith ar iechyd (yn rhan o'r ACI), felly bydd safleoedd lle rhoddwyd ystyriaeth i iechyd a llesiant yn y cyfnodau cynharaf drwy gyflwyno rhestr wirio iechyd a llesiant yn cael eu ffafrio.

| **Canlyniad Asesu Newid Hinsawdd, Creu Lleoedd a Llesiant** | |
|---|---|
| Ystyrir bod y cynnig yn ategu canlyniadau newid hinsawdd a chreu lleoedd cenedlaethol, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at amcanion iechyd a llesiant. | ☐ |

| | |
|---|---|
| Ni fyddai'r cynnig yn gwneud rhyw lawer o gyfraniad o ran y newid hinsawdd, canlyniadau creu lleoedd cenedlaethol, a byddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at amcanion iechyd a llesiant. | ☐ |
| Byddai’r cynnig yn groes i ganlyniadau creu lleoedd cenedlaethol ac yn gwneud cyfraniad niwtral/negyddol at amcanion iechyd a llesiant. | ☐ |

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

